Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

SICRHAU
GWELLIANT
TRWY
AROLYGU ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

amddiffyn y cyhoedd trwy oruchwyliaeth statudol o fydwragedd

protecting the public through statutory supervision of midwives

# Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda

# Archwiliad Blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Leol

2012-2013

Awst 2013

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Tŷ Bevan**
**Parc Busnes Caerffili**
**Heol y Fan**
**CAERFFILI**
**CF83 3ED**


Neu trwy'r canlynol


| | |
|---|---|
| **Ffôn**: | 029 20 928850 |
| **Ebost**: | hiw@wales.gsi.gov.uk |
| **Ffacs:** | 029 20 928877 |
| **Gwefan**: | www.hiw.org.uk |



ISBN digidol 978 1 4734 0103 7


© Hawlfraint y Goron 2013


WG19485

## Cynnwys


1 Crynodeb Gweithredol …………………………………………….…..3

2 Cyflwyniad …………………………………………………..........….4

3 Canfyddiadau'r Archwiliad …………………………………………….6

4 Offeryn tystiolaeth gyda sylwadau ac argymhellion yr AGLI ..........9

5 Casgliad …………………………………………………..........…40

6 Atodiadau…………………………………………………...........…41

## 1 Crynodeb Gweithredol

**1.1** Sefydliadau o fewn ardaloedd daearyddol yw Awdurdodau Goruchwylio Lleol (AGLl), ac maent yn gyfrifol am sicrhau bod bydwragedd yn cael eu goruchwylio'n statudol yn unol â'r safonau a osodir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth dan erthygl 43 Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Mae manylion y Gorchymyn hwn i'w cael yn rheolau a safonau Bydwragedd y Cyngor. Yng Nghymru, darperir swyddogaeth yr AGLl gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r AGLl yng Nghymru wedi penodi dau Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl i gyflawni swyddogaeth yr AGLl ar eu rhan.

**1.2** Diben yr archwiliad blynyddol yw asesu i ba raddau y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyflawni'r swyddogaeth oruchwylio ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol, o'i gymharu â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a gwneud awgrymiadau ar gyfer datblygiad pellach a gwelliant parhaus.

### 1.3 Crynodeb

Yn y flwyddyn adrodd hon cafodd y broses ar gyfer archwilio gwasanaethau mamolaeth a ddyfeisiwyd yn 2011-2012 ei diwygio gan yr AGLl i fod yn fwy cymesur gan ganolbwyntio mwy ar naw safon benodol ar draws Cymru lle y dangoswyd yn flaenorol bod angen datblygiad parhaus. Ar gyfer BILl Hywel Dda roedd un safon yn ychwanegol at y naw arall na chafodd ei bodloni yn 2011-2012 ac felly cafodd hon hefyd ei harchwilio eleni. Dangosodd yr archwiliad hwn fod 11% (1) o'r meini prawf ar gyfer y naw safon a fesurwyd wedi cael eu bodloni â thystiolaeth gref ac ni awgrymir unrhyw gamau datblygu. Bodlonwyd 33% (3) arall â thystiolaeth gref neu gymedrol i gref, a gwnaed argymhellion ar gyfer datblygiad pellach. Bodlonwyd y 55% (5) a oedd yn weddill â thystiolaeth gymedrol neu wan ac mae camau datblygu wedi cael eu hargymell i gryfhau'r swyddogaeth oruchwylio. Cafodd yr un safon nas bodlonwyd yn 2011-12 ei bodloni â thystiolaeth wan, a pharheir i adolygu datblygiad.

Gwneir argymhellion mewn meysydd lle mae'r offeryn archwilio yn nodi bod angen datblygiad i gynorthwyo Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Hywel Dda i ddatblygu safonau lle'r oedd tystiolaeth yn llai cadarn a/neu lle byddent yn elwa o ddatblygiad parhaus yn unol ag amcanion y broses archwilio barhaus. Mae'r AGLl wedi bod yn glir o'r cychwyn cyntaf nad bwriad y prosesau archwilio diwygiedig yw bod yn feirniadol; eu nod yw cefnogi datblygiad parhaus drwy ddenu'r adnoddau a'r hyfforddiant priodol yn ôl y gofyn.

Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn **www.hiw.org.uk**.

## 2 Cyflwyniad

**2.1** Mae disgwyl i Oruchwylwyr Bydwragedd weithio'n unol â chyfres gyffredin o safonau i alluogi bydwragedd i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithlon gan wella diogelwch y cyhoedd. Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLl) gyflwyno adroddiad blynyddol ysgrifenedig i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i'w hysbysu am weithgareddau, materion allweddol, arfer da a thueddiadau sy'n effeithio ar wasanaethau mamolaeth yn ei ardal. I roi sail i'r broses hon, bydd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl yn cynnal archwiliadau o wasanaethau bydwreigiaeth yn ei ardal.

**2.2** Mae proses archwilio'r AGLl yn defnyddio dull hunanadolygu/adolygu cymheiriaid ar gyfer holl safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a dilynir hyn gan ymweliad archwilio gan dîm yr AGLl i gadarnhau'r dystiolaeth a gyflwynwyd ar gyfer y naw safon blaenoriaeth. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl a enwyd, Adolygwr Lleyg yr AGLl, Goruchwyliwr Bydwragedd profiadol o Fwrdd Iechyd cyfagos a Goruchwyliwr Bydwragedd dan hyfforddiant. Mae hyn yn eu galluogi i archwilio fel tîm, yn rhoi cyfle i adolygu cymheiriaid a meincnodi ac yn cefnogi'r broses o rannu arfer da. Cafodd adolygwyr lleyg yr AGLl eu cynnwys yn y tîm am y tro cyntaf eleni, gan sicrhau bod safbwynt defnyddwyr yn cael ei geisio drwy gydol y broses archwilio yn lle bod yr adolygwyr lleyg yn cynnal archwiliad digysylltiad ar wahân, fel yn y blynyddoedd blaenorol; cafwyd croeso i hyn ar bob lefel.

**2.3** Cynhaliwyd yr ymweliad archwilio ar gyfer BILl Hywel Dda ar 28/01/2013 yn ôl y bwriad Gwahoddwyd personél allweddol yn ogystal â thîm goruchwylio'r BILl (**Atodiad A - Rhaglen**). Roedd yn anffodus bod rhai personél un ai ddim ar gael neu na ofynnwyd iddynt fod yn bresennol. Roedd y rhain yn cynnwys y rheolwr risg corfforaethol, y cyfarwyddwr clinigol, myfyrwyr bydwreigiaeth a chynrychiolydd Sefydliad Addysg Uwch. Fodd bynnag, gwnaed trefniadau eraill ar y diwrnod i Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl siarad ag uwch obstetregydd. Roedd y Cyfarwyddwr Nyrsio wedi anfon ei hymddiheuriadau yn flaenorol ond cafodd ei chynrychioli gan y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth Cyswllt.

**2.4** Cynhaliwyd yr archwiliad gan Vinny Ness, Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl, gyda chymorth Dawn Kelly, Goruchwyliwr Bydwragedd profiadol BILl Abertawe Bro Morgannwg, Julie Austin a Trisha Chan, Goruchwylwyr Bydwragedd dan hyfforddiant o BILl Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a Sam Howells, Adolygwr Lleyg yr AGLl.

**2.5** Dechreuodd yr archwiliad gyda chyflwyniad cyffredinol byr gan Vinny Ness ac fe'i dilynwyd gan gyflwyniad PowerPoint lle y rhoddodd y Goruchwylwyr Bydwragedd

ddisgrifiad o Fwrdd Iechyd Hywel Dda a gweithgareddau goruchwylio yn ogystal â llwyddiannau'r Goruchwylwyr Bydwragedd o ran arfer da.  Hefyd, rhoddodd yr ymweliad gyfle i gwrdd a rhannu gwybodaeth am oruchwylio gyda Goruchwylwyr Bydwragedd, bydwragedd, myfyrwyr bydwreigiaeth a defnyddwyr gwasanaeth/cynrychiolwyr lleyg. (**Atodiad B – y rhai a gymerodd ran**).

## 3 Canfyddiadau'r Archwiliad

**3.1** Diben archwiliad blynyddol yr AGLI yw adolygu'r dystiolaeth sy'n dangos bod Safonau Goruchwylio'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu bodloni; sicrhau bod systemau a phrosesau perthnasol ar waith i wella diogelwch mamau a babanod; sicrhau bod arferion bydwreigiaeth wedi'u hategu gan bolisïau a gweithdrefnau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a bod ymarferwyr yn cael cefnogaeth Goruchwylwyr Bydwragedd i gynnal cymhwysedd clinigol; canfod bod bydwragedd yn cyfathrebu'n effeithiol o fewn y tîm amlddisgyblaethol ac adolygu effaith goruchwylio ar arferion bydwreigiaeth. Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI yn llunio asesiad ar sail y wybodaeth a ddarperir gan Oruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Hywel Dda a thrwy gyfarfod â'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth Cyswllt, Goruchwylwyr Bydwragedd, bydwragedd a defnyddwyr gwasanaeth.

**3.2** Yn anffodus nid oedd rhai personél allweddol a allai ddilysu datblygiad gwaith amlddisgyblaethol, yn arbennig rhwng y tîm llywodraethu corfforaethol a'r Goruchwylwyr Bydwragedd, yn bresennol yn ystod yr ymweliad archwilio. Yn yr un modd, oherwydd lefelau gweithgareddau yn yr ardal glinigol ar y diwrnod ni lwyddodd tîm yr AGLI i weld cymaint o fydwragedd ag y byddent wedi'i hoffi. Roedd yn anodd casglu tystiolaeth a barn gyson ar ôl y sesiwn agoriadol, gan fod diffyg trefn yn y bore oherwydd bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn chwilio am ragor o dystiolaeth i wella eu cyflwyniad. Nid oedd y ffeil dystiolaeth a gyflwynwyd i ategu'r ymweliad mor gynhwysfawr â'r llynedd, ac oherwydd bylchau mewn tystiolaeth ar y diwrnod nid oedd mor hawdd ei dilyn. Cyflwynwyd rhywfaint o dystiolaeth ychwanegol i'r AGLI ar ôl gwneud cais yn dilyn yr ymweliad.

**3.3** Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI wedi cael cyfle i weithio gyda'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd trwy gydol y flwyddyn ac mae wedi gweld rhywfaint o waith unigol a thîm rhagorol ym mhob un o'r siroedd. Mae gwaith i'w wneud o hyd i ffurfio tîm goruchwylio cydlynol, sy'n gweithio'n gyson i rannu arfer gorau ar draws BILI Hywel Dda yn hytrach na dyblygu gwaith yn y model tair sir. Er gwaethaf heriau parhaus o ran amser staff a chyfyngiadau ar adnoddau teithio, rhoddwyd pwyslais cynyddol ar bresenoldeb mewn cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd bob dau fis gan felly ddechrau cryfhau swyddogaeth goruchwylio, yn arbennig yn ei chyfraniad i'r agenda lywodraethu ehangach. Mae rhyw gymaint o ddryswch o hyd rhwng swyddogaeth y Goruchwyliwr Bydwragedd a sut y mae'n 'cydweddu' â phrif swyddogaeth yr unigolyn, ac mae hyn, ar adegau, wedi arwain at wrthdaro tybiedig neu bosibl rhwng rheoli a goruchwylio.

**3.4** **Roedd yr elfennau cadarnhaol a'r enghreifftiau o arfer da a nodwyd yn cynnwys**:

- Roedd yn nodedig bod Goruchwylwyr Bydwragedd wedi hwyluso dau ddigwyddiad dysgu - Dehongli CTG ac Asesiad Twf Mewngroth – cysylltiedig â chanlyniadau dysgu yn dilyn ymchwiliadau goruchwylio, ac mae'n dangos agwedd agored y BILI a'i

ddealltwriaeth o bwysigrwydd dysgu o ddigwyddiadau annisgwyl.

- Mae'r ddogfen 'Pathway through normal maternity services – Make every contact count' yn adnodd rhagorol i fydwragedd ar bob lefel, i'w cynorthwyo i gofio beth ddylid ei wneud a phryd. Mae'r cysylltiadau o fewn y ddogfen hon i ddogfennau pwysig eraill yn arbennig o ddefnyddiol.
- Mae'r Cofnod Gofal Ôl-enedigol yn enghraifft wych arall o arfer da i gefnogi mamau newydd a'u teuluoedd yn ogystal â rhoi arweiniad i'r rhai sy'n darparu eu gofal. Bydd yr arolwg a chwestiynau boddhad defnyddwyr yn cefnogi'r broses o gasglu data yn unol â'r Strategaeth Famolaeth. Roedd yn dda gweld cyfeiriad at y Goruchwyliwr Bydwragedd a hysbyseb ar gyfer aelodaeth o'r Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth.
- Derbyniodd Goruchwyliwr Bydwragedd glod mawr trwy dderbyn dyfarniad Bydwraig y Flwyddyn gan y Coleg Nyrsio Brenhinol am ei gwaith yn darparu rhaglenni addysg a hyfforddiant i bediatregwyr, bydwragedd a gweithwyr cymorth iechyd ar Gynnal Bywyd y Newydd-anedig, gan wella arfer clinigol yn ogystal â chodi proffil goruchwyliaeth.

**3.5 Heriau**

- Fel yn y rhan fwyaf o dimau Goruchwylwyr Bydwragedd, ceir heriau penodol o ran cydbwyso anghenion y brif swydd ac anghenion sy'n gysylltiedig â bod yn Oruchwyliwr Bydwragedd. Mae hyn yn golygu bod ymchwiliadau, ysgrifennu adroddiadau a defnyddio sancsiynau yn aml yn cael eu gohirio'n ddiangen.
- Ar hyn o bryd nid oes yr un tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yng Nghymru yn cydymffurfio'n llawn â'r Broses Adolygiadau Goruchwylio Blynyddol sy'n sicrhau bod pob bydwraig wedi cael adolygiad blynyddol yn y 12 mis blaenorol.
- Dylai Goruchwylwyr Bydwragedd Hywel Dda barhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod y tîm goruchwylio'n fwy cydlynol trwy'r BILI a cheisio cyfleoedd i rannu arbenigedd a gwybodaeth rhwng pob sir. Dylid gwella presenoldeb rhai Goruchwylwyr Bydwragedd mewn cyfarfodydd deufisol.
- Mae'r hinsawdd ariannol anodd yn ei gwneud yn her i gefnogi pob Goruchwyliwr Bydwragedd i gael profiad digonol o bob agwedd ar y swyddogaeth, a gwelir tystiolaeth o hyn yn yr offeryn cymhwysedd goruchwylio blynyddol a gyflwynwyd i'r AGLI.

**3.6 Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Nodwyd argymhellion i gynorthwyo tîm Goruchwylwyr Bydwragedd Hywel Dda i gyflwyno gwelliannau i'r swyddogaeth oruchwylio dan bob un o safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a oedd yn destun archwiliad yn yr offeryn archwilio sy'n dilyn. Cyflwynodd y Goruchwylwyr Bydwragedd eu tystiolaeth cyn ymweliad archwilio'r AGLI ac roedd yn ofynnol iddynt nodi unrhyw gamau gwella yr oedd eu hangen, yn eu barn nhw, i gryfhau eu tystiolaeth ar gyfer y mesurau a ddisgrifiwyd gan yr AGLI i nodi tystiolaeth gref, gymedrol neu wan. Diben y broses ddiwygiedig hon oedd galluogi

Goruchwylwyr Bydwragedd i nodi eu camau gwella eu hunain am y flwyddyn i ddod a rhoi cyfrifoldeb iddynt dros ddatblygiad yn y dyfodol. Ni chafodd adran cynllun gweithredu'r offeryn archwilio ei ddatblygu o'r flwyddyn flaenorol, lle'r oedd y cynllun gweithredu'n amrywiol o ran dangos camau gweithredu CAMPUS a fyddai'n cyfrannu at welliant parhaus. Roedd y Goruchwylwyr Bydwragedd wedi dyfeisio cynllun gweithredol da ym maes goruchwylio ond ni chafodd ei gwblhau trwy gynnwys llwyddiannau a chynnydd. Fodd bynnag, mae hon yn sylfaen dda ar gyfer y flwyddyn i ddod, a dylai gynnwys camau datblygu a nodwyd yn ystod ymweliad archwiliad yr AGLI eleni.

**3.7** Amlinellir y manylion sy'n sail i'r argymhellion yn adran 4, dan sylwadau'r AGLI ac argymhellion yn yr offeryn archwilio. Mae gan Oruchwylwyr Bydwragedd Hywel Dda bedair safon ar ddeg lle y byddai rhagor o ddatblygiad o fudd. Bydd Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI yn gweithio gyda'u timau i gefnogi'r broses o baratoi cynllun gweithredol ar gyfer y flwyddyn i ddod a fydd yn mynd i'r afael â datblygiad y safonau hyn a bodloni gofynion cymhwysedd y tîm.

## 4 Offeryn Hunanasesu Bwrdd Iechyd Hywel Dda ac Adborth Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI am y Camau Gweithredu a Argymhellir

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|
| V1 | **Ceisir barn a phrofiadau bydwragedd o oruchwyliaeth statudol.** | ***Offeryn Holiadur Archwilio mewn ffeil dystiolaeth sy'n dangos ymateb cadarnhaol i oruchwyliaeth.***<br><br>**Tystiolaeth Goruchwylwyr Bydwragedd 2012/13**<br><br>Cynhaliwyd archwiliadau ychwanegol ar draws y tri safle gydag un holiadur cyffredin. Canlyniadau'r archwiliad wedi'u crynhoi a chynllun gweithredu wedi'i sefydlu i'w drafod mewn cyfarfod Goruchwylwyr Bydwragedd Hywel Dda a'i ddosbarthu ymhlith Bydwragedd.<br><br>Mae pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn ymwybodol o'r angen i archwilio arfer goruchwylio. Mae hyn wedi cael ei ategu gan yr holiadur - barn bydwragedd am oruchwyliaeth. Mae pob Goruchwyliwr Bydwragedd wedi annog o leiaf 50% o'r rhai y maent yn eu goruchwylio i lenwi'r rhain i gael adborth.<br><br>Mae sylwadau hyd yn hyn wedi bod yn gadarnhaol yn bennaf gyda bydwragedd yn cadarnhau'r farn bod goruchwyliaeth yn weladwy ac yn weithredol.<br><br>Roedd pob bydwraig a archwiliwyd wedi cwrdd â'i Goruchwyliwr Bydwragedd yn y deuddeg mis diwethaf. Roedd pob un yn gyfarwydd â'r canllawiau ar gyfer Goruchwylwyr Bydwragedd lleol. Roedd pob un wedi cael sesiwn ddiweddaru broffesiynol. Teimlai pob un bod yr adolygiad blynyddol o fudd.<br><br>"*Cadarnhaol a rhagweithiol"*<br><br>*"Mae'n system gymorth i fydwragedd ac yn ffordd i edrych ar anghenion datblygu proffesiynol ac unrhyw faterion yr ydych am eu trafod"*<br><br>*"I sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf o ran ymarfer, cadw cofnodion i safon dderbyniol. Nodi bylchau mewn gwybodaeth"*<br><br>*"Byddai cael trafodaethau byr yn rheolaidd yn ddefnyddiol ac yn atgoffa pobl am y swyddogaeth"* | ***Parhau i gynnal agwedd gefnogol a rhagweithiol at oruchwyliaeth.***<br><br>***2012/13 Dim camau gweithredu newydd wedi'u cynllunio*** |

<table>
<tr><td></td><td></td><td colspan="2">"Rwy'n ymwybodol o'r gwasanaeth ar alwad ond nid wyf yn siŵr sut y mae goruchwyliaeth yn gweithio mewn ffyrdd eraill".</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth</td><td colspan="3">Mesurau: Cryf Cymedrol Gwan</td></tr>
<tr><td colspan="2">V1 Canlyniad:<br><br>2012/13<br>AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth wan sy'n waeth na'r llynedd<br><br>Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygu.</td><td>Archwiliad o fwy nag 20% o safbwyntiau bydwragedd<br><br>Mae o leiaf 20 o fydwragedd yn dweud bod goruchwyliaeth yn weladwy ac yn gadarnhaol<br><br>Mae 95 i 100% o Oruchwylwyr Bydwragedd wedi cael 10 adolygiad sy'n dangos yr ystyrir bod goruchwyliaeth yn rhywbeth cadarnhaol yn gyffredinol</td><td>Safbwyntiau o leiaf 10% o fydwragedd<br><br>Mae o leiaf 10 o fydwragedd yn dweud bod goruchwyliaeth yn weladwy ac yn gadarnhaol<br><br>Mae 90 – 95% o Oruchwylwyr Bydwragedd wedi cael 10 adolygiad sy'n dangos yr ystyrir bod goruchwyliaeth yn rhywbeth cadarnhaol yn bennaf</td><td>0 archwiliad<br><br>Mae llai na 10 yn dweud bod goruchwyliaeth yn weladwy ac yn gadarnhaol, neu'n dweud ei bod yn negyddol<br><br>Mae llai na 90% o Oruchwylwyr Bydwragedd wedi cael 10 adolygiad a/neu ystyrir bod goruchwyliaeth yn rhywbeth negyddol</td></tr>
<tr><td colspan="5">Sylwadau'r AGLI<br><br>Yn ystod yr ymweliad archwilio dywedwyd wrth y tîm y cafwyd 40 ymateb gan 195 bydwraig. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn y ffeil archwilio yn cadarnhau'r gweithgaredd cynyddol a awgrymir ar gyfer y safon hon gan ei bod yn cynnwys adroddiad cryno o 8 ymateb i archwiliad o fydwragedd a gasglwyd yn 2012 yng Nghheredigion yn unig, yn ogystal â dau ymateb arall dyddiedig 2011 na chafodd eu cynnwys yng ngwerthusiad yr AGLI. Mae'r ymateb o Geredigion yn cynrychioli 4% o fydwragedd ac mae hyn yn llai na'r dystiolaeth a gasglwyd yn 2011, sef 28 bydwraig neu 15%. Roedd y safbwyntiau a gyflwynwyd yn gadarnhaol am amlygrwydd Goruchwylwyr Bydwragedd a pha mor hawdd yw mynd atynt, ac roedd atebwyr yn gweld goruchwyliaeth fel dull o gefnogi menywod a bydwragedd. Cafwyd cais am gynnal mwy o fforymau dysgu/trafodaeth pe byddai amser yn caniatáu, a neilltuo mwy o amser i Oruchwylwyr Bydwragedd a bydwragedd weithio gyda'i gilydd. Cyfarfu'r tîm archwilio â bydwragedd a myfyrwyr yn yr ardal glinigol, ac roedd peth dryswch ynglŷn â sut yr oedd rota ar alwad y Goruchwylwyr Bydwragedd yn gweithio h.y. p'un a oedd Goruchwyliwr Bydwragedd ar gael ym mhob sir, ynteu un ar draws y BILl.</td></tr>
<tr><td colspan="5">Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus<br>Diweddarwyd 2012/13<br>Roedd hwn yn ganlyniad siomedig ar gyfer y safon hon o ystyried y gwnaed argymhelliad ar gyfer datblygiad y llynedd. Mae'r naratif hunanasesu uchod yn awgrymu y byddai gwelliant amlwg o'i gymharu â'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn 2011, ond wedyn cafodd ei hepgor o'r ffeil dystiolaeth. Nid oedd y cynllun gweithredu y cyfeiriwyd ato ar gael yn ystod yr ymweliad archwilio. Fel y nododd yr AGLI y llynedd, dylai Goruchwylwyr Bydwragedd Hywel Dda wneud ymdrech benderfynol i lunio rhaglen archwilio sy'n cynnwys gweithio tuag at gasglu safbwyntiau o leiaf 50% o fydwragedd dros y flwyddyn i ddod. Dylai'r rhain fod yn gydradd ar draws tri safle Hywel Dda a dylai'r canlyniadau gael eu cyflwyno mewn adroddiad cyfansawdd gyda rhai awgrymiadau clir ar gyfer gweithredu os ceir ymatebion llai cadarnhaol yn sgil cyfradd ymateb uwch.</td></tr>
</table>

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V2 | **Cynhelir gweithgareddau goruchwylio cyfrinachol mewn ystafell sy'n sicrhau preifatrwydd.** | ***Cryf – cyflwynwyd tystiolaeth lafar yn adolygiad yr Archwiliad. Mae pob goruchwyliwr yn rhagweithiol o ran cael ystafell breifat i gynnal Cyfweliadau Goruchwylio Cyfrinachol. Nid oes unrhyw broblemau o ran defnyddio'r rhyngrwyd***<br><br>***Ceir tystiolaeth yn holiaduron y bydwragedd y cynigir preifatrwydd ar gyfer yr adolygiad blynyddol.***<br><br>**Tystiolaeth 2012/13**<br>Fel uchod, cynhaliwyd yr archwiliad ar draws y tair sir, sicrhawyd preifatrwydd ar gyfer adolygiadau blynyddol a chyswllt electronig i bob goruchwyliwr. | | ***2012/13 Dim camau gweithredu newydd wedi'u cynllunio*** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V2 **Canlyniad:**<br><br>**AGLI - BODLONWYD â thystiolaeth gref yn bennaf.**<br>**Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygu.**<br>**2012/13**<br>**Nid aseswyd y safon hon ac mae'r argymhelliad o'r flwyddyn flaenorol yn dal yn berthnasol** | | **Dangoswyd ystafell benodol i Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol lle y cynhelir cyfweliadau goruchwylio**<br><br>**Ceir mynediad i'r rhyngrwyd yn yr ystafell benodol er mwyn gallu gweithio ar-lein, yn ogystal â mynediad at gronfa ddata'r Awdurdod Goruchwylio Lleol**<br><br>**Mae o leiaf 20 o fydwragedd yn nodi y rhoddir sylw priodol i breifatrwydd yn eu hadolygiad blynyddol / trafodaethau Goruchwylwyr Bydwragedd** | **Mae ystafell benodol ar gael gan amlaf neu gellir dangos i Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol lle y sicrheir bod ystafelloedd ar gael**<br><br>**Ni cheir mynediad rheolaidd i'r rhyngrwyd**<br><br>**Mae o leiaf 10 o fydwragedd yn nodi y rhoddir sylw priodol i breifatrwydd yn eu hadolygiad blynyddol / trafodaethau Goruchwylwyr Bydwragedd** | **Ni ellir nodi unrhyw ystafelloedd neu mae'n ymddangos y cânt eu neilltuo yn ôl yr angen**<br><br>**Dim mynediad i'r rhyngrwyd**<br><br>**Mae llai na 10 o fydwragedd yn nodi y rhoddir sylw priodol i breifatrwydd yn eu hadolygiad blynyddol / trafodaethau Goruchwylwyr Bydwragedd** |

**Sylwadau'r AGLI**

Ni nodwyd problemau ynghylch preifatrwydd wrth gynnal adolygiadau goruchwylio o'r sampl fechan o fydwragedd a gynrychiolwyd. Yn yr un modd roedd tîm adolygu'r AGLI yn cael ar ddeall nad oedd hyn yn broblem i'r bydwragedd a gyfwelwyd yn ystod yr ymweliad archwilio. Mae gan nifer o fydwragedd yn Hywel Dda gyfeiriad e-bost bellach sy'n golygu nad oes unrhyw bryderon ynghylch defnyddio'r rhyngrwyd.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Fel uchod, mae angen i Hywel Dda ystyried archwilio safbwyntiau bydwragedd ynglŷn â goruchwyliaeth yn amlach, ac ystyried beth y gallant ei wneud i wella'r gyfradd ddychwelyd i gael sampl ehangach o safbwyntiau sy'n cynrychioli gweithlu bydwreigiaeth y BILI yn ei gyfanrwydd yn well.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V3 | **Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu polisïau a chanllawiau seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ymarfer clinigol.** | ***Gwelwyd tystiolaeth glir bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn aelodau o grwpiau polisi***<br>***Cylch gorchwyl yn y ffeil dystiolaeth / Cofnodion polisi.***<br><br>**Tystiolaeth 2012/13**<br>Grŵp polisi Hywel Dda yn cwrdd yn rheolaidd ac mae cylch gorchwyl ar gael.<br>Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud yn weithredol mewn datblygu polisïau o fewn y grŵp ac ymgynghorir â nhw o ran polisïau corfforaethol e.e. rheoli meddyginiaethau.<br>Goruchwylwyr Bydwragedd ar hyn o bryd yn arwain ar ddatblygu ac adolygu canllawiau ynghylch normalrwydd megis genedigaeth mewn dŵr<br>Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â grŵp polisïau a dosbarthu canllawiau.<br>Pob polisi newydd ar gael yn y mannau clinigol a chânt eu trafod yn y fforwm ward esgor.<br>Caiff pob polisi newydd ei anfon trwy e-bost at bob Goruchwyliwr Bydwragedd i gael eu sylwadau ac yna ei ddosbarthu i'r rhai y maent yn eu goruchwylio | | ***Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyfranogi'n weithredol.***<br><br>***2012/13 Dim camau gweithredu newydd wedi'u cynllunio*** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V3 | **Canlyniad:**<br><br>**2012/13**<br>**AGLI - BODLONWYD â thystiolaeth gref yn bennaf.**<br>**Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygu.** | **Proses eglur sy'n amlinellu sut y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â'r grŵp datblygu canllawiau**<br><br>**Canllawiau gwirioneddol sy'n enwi Goruchwylwyr Bydwragedd fel datblygwyr** | **Mae rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â datblygu canllawiau hyd yn oed os nad yw hyn yn broses ffurfiol**<br><br>**Canllawiau gwirioneddol sy'n enwi Goruchwylwyr Bydwragedd fel unigolion yr ymgynghorwyd â hwy** | **Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n cyfeirio at Oruchwylwyr Bydwragedd yn datblygu neu'n cymeradwyo canllawiau** |

**Sylwadau'r AGLI**

Anfonwyd cylch gorchwyl ar gyfer Gweithgor Polisi'r Adran Famolaeth at yr AGLI. Mae'n mynnu bod y grŵp yn cynnwys Goruchwyliwr Bydwragedd ac yn nodi'n glir swyddogaeth y grŵp, pa mor aml y bydd yn cwrdd a sut y bydd cofnodion yn cael eu dosbarthu ar ôl cyfarfodydd. Dylid nodi bod y cylch gorchwyl i fod i gael ei adolygu ym mis Gorffennaf 2011. Mae'r cerdyn gweithredu o gyfarfod y grŵp polisi yn dangos bod Goruchwyliwr Bydwragedd wedi cael y cyfrifoldeb o ddatblygu camau gweithredu

| |
|---|
| perthnasol a cheir tystiolaeth yr hysbysir staff am bolisïau newydd ar y cerdyn gweithredu o Fforwm y Ward Esgor. Roedd y daflen newyddion Maternity Matters yn ffordd arall o hysbysu staff am ganllawiau newydd a gyhoeddwyd ac am fentrau eraill yr oedd angen i staff fod yn gyfarwydd â nhw. Anfonwyd y dudalen berthnasol o'r Polisi ar Bolisïau at yr AGLl, ynglŷn â hysbysu staff pan gaiff polisïau newydd eu rhyddhau neu eu diweddaru, a'u dosbarthu iddynt. Yn ystod yr ymweliad dywedwyd wrth y tîm am y camau a gymerir ar draws Hywel Dda i safoni polisïau a'r dull o ddefnyddio hysbysfyrddau, cyfnodau trosglwyddo sifftiau, ebost a rhestrau llofnodion i sicrhau bod staff yn ymwybodol o bolisïau newydd. Nid oedd y safleoedd yn gwneud defnydd cyson o negeseuon 'wedi'i ddarllen' a rhestrau dosbarthu/llofnodion i gadarnhau bod staff wedi darllen y polisïau. Roedd yn galonogol gweld y teitl Goruchwyliwr Bydwragedd yn ymddangos ar y rhan fwyaf o ddogfennau a adolygwyd. |
| **Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**<br>**Diweddarwyd 2012/13**<br>Roedd hon yn safon gyda thystiolaeth dda yn unol â'r gofynion. Dylai Goruchwylwyr Bydwragedd ystyried sut i sicrhau bod holl wasanaethau mamolaeth Hywel Dda yn dilyn yr arfer gorau ar gyfer dosbarthu a rhoi sêl bendith ar bolisïau i sicrhau bod pob bydwraig wedi eu gweld a'u darllen. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|
| V4 | **Mae dogfennau canllawiau a pholisïau lleol ar gael i bob bydwraig ar ffurf electronig neu gopi caled.** | ***Mae copïau caled mewn ffolderi ym mhob ardal – cafwyd trafodaeth ynghylch sut y caiff polisïau eu dosbarthu a'r dystiolaeth a oedd ar gael.***<br><br>**Tystiolaeth 2012/13**<br>Mae'r polisi corfforaethol ar gyfer polisïau yn diffinio proses o ddosbarthu polisïau, caiff cylchlythyr Midwifery Matters ei ddosbarthu er gwybodaeth, ceir hysbysfyrddau amlwg â pholisïau newydd arnynt, mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â rhannu gwybodaeth â bydwragedd - gweler uchod a thystiolaeth yn ystod yr ymweliad. | ***1. Goruchwylwyr bydwragedd i sicrhau bod gan bob bydwraig gyfrif ebost i rannu gwybodaeth.***<br><br>***2. Angen datblygu dull i gydnabod y derbyniwyd polisïau wedi'u diweddaru neu rai newydd.***<br>***Dim camau gweithredu newydd wedi'u cynllunio*** |

| | Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth | Mesurau: Cryf | Cymedrol | Gwan |
|---|---|---|---|---|
| V4 **Canlyniad:**<br><br>**2012/13**<br>**AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gymedrol.**<br>**Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygu.** | | **Proses eglur sy'n dangos bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn arwain ar gyfathrebu gyda bydwragedd pan ddatblygir canllawiau newydd**<br><br>**Ceir proses eglur i Oruchwylwyr Bydwragedd ddosbarthu canllawiau a sicrhau bod bydwragedd yn ymwybodol ohonynt / cytuno arnynt** | **Efallai nad yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn arwain ar gyfathrebu, ond mae'n amlwg eu bod yn ymwneud â phroses o gyfathrebu â bydwragedd pan ddatblygir canllawiau newydd**<br><br>**Efallai nad yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn gwneud y dosbarthu, ond gallant ddangos eu bod yn ymwneud i ryw raddau â sicrhau bod bydwragedd yn ymwybodol o'r canllawiau neu'n cytuno arnynt** | **Nid oes tystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyflawni unrhyw swyddogaeth wrth hysbysu bydwragedd am ganllawiau newydd neu sicrhau eu bod yn ymwybodol ohonynt / cytuno arnynt** |

**Sylwadau'r AGLI**
**Diweddarwyd 2012/13**
Nid oes proses ysgrifenedig o hyd i nodi sut y caiff Goruchwylwyr Bydwragedd eu cynnwys neu sut y maent yn arwain ar ddosbarthu polisïau newydd i sicrhau bod bydwragedd yn y lleoliad clinigol wedi'u gweld ac wedi llofnodi i gadarnhau eu bod wedi'u darllen pan gyhoeddir nhw. Roedd y tîm archwilio a ymwelodd â'r mannau clinigol yn ystyried bod staff yn y clinig cynenedigol yn fwy ymwybodol o'r polisïau na'r staff yn yr ardal ôl-enedigol. Roedd y Goruchwylwyr Bydwragedd a oedd yn bresennol yn yr archwiliad yn disgrifio amrywiaethau yn y broses o ddosbarthu polisïau, ac yn cydnabod bod angen gwaith ar y broses ddosbarthu a llofnodi ar draws tri safle Hywel Dda i gael cysondeb. Derbyniwyd rhan o'r Polisi corfforaethol ar Bolisïau yn disgrifio y dylai'r gwasanaeth lleol ddyfeisio proses ar gyfer codi ymwybyddiaeth a dosbarthu. Roedd rhywfaint o waith papur yn ymwneud â sgiliau ac ymarferion yn y ffeil dystiolaeth ond nid oedd cyfeiriad yn unrhyw un o'r papurau at ddefnydd polisïau yn ystod y gweithdai hyn.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**
**Diweddarwyd 2012/13**

Mae angen i Oruchwylwyr Bydwragedd Hywel Dda, mewn partneriaeth â rheolwyr, ystyried llunio proses ysgrifenedig sy'n dangos yn glir sut y bydd polisïau'n cael eu dosbarthu ar gyfer sylwadau a/neu lofnodi a phwy fydd yn arwain ar yr agwedd bwysig hon ar y gwaith. Ymhellach, dylai'r broses nodi sut y bydd bydwragedd yn dangos i Oruchwylwyr Bydwragedd eu bod wedi gweld ac wedi darllen polisïau newydd. Efallai y gallai'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd ystyried sut y gallant ddefnyddio driliau argyfwng neu fforymau eraill i godi proffil polisïau newydd neu berthnasol.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V5 | **Mae gweithdai sgiliau ac ymarferion sy'n berthnasol i'w lleoliad ymarfer, ac a argymhellir gan CEMACH (yr Ymchwiliad Cyfrinachol i Iechyd Mamau a Phlant) ac argymhellion cenedlaethol eraill, ar gael i fydwragedd ac maent yn manteisio arnynt.** | ***Cronfa ddata hyfforddiant yn y ffeil. Rhaglen yn dangos gweithdai sgiliau ac ymarferion perthnasol i ymarfer yn y ffeil ac yn amlwg yn yr hyn a ddysgwyd oddi wrth ddigwyddiadau.***<br>***Presenoldeb 95%. Mae bydwragedd yn ymarferol yn dangos eu bod wedi dysgu a meithrin ymwybyddiaeth yn sgil mynd i'r gweithdai, ac mae hyn yn amlwg o dystiolaeth adolygiadau risg clinigol a goruchwylio.***<br>***Tystiolaeth 2012/13***<br>Mae rhaglen hyfforddi lawn wedi'i sefydlu ar draws Hywel Dda gydag arweinwyr hyfforddiant ym mhob sir. Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â'r rhaglen a chedwir cofnodion/ diweddarir siartiau twf ar draws y sir mewn ymateb i ddigwyddiad critigol. | | **2012/13 Dim camau gweithredu newydd wedi'u cynllunio** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau: Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V5 **Canlyniad:**<br><br>**AGLI - BODLONWYD â thystiolaeth gref yn bennaf.**<br>**Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygu.**<br>**2012/13**<br>**Nid aseswyd y safon hon ond mae argymhelliad y flwyddyn flaenorol yn dal yn berthnasol** | | **Ceir cofnod hyfforddiant sy'n dangos bod rhaglen wedi'i sefydlu o flwyddyn i flwyddyn sy'n ymdrin â'r holl brif sgiliau ac ymarferion a argymhellir gan CEMACH**<br><br>**Ceir cofnod clir i ddangos bod 95 - 100% o fydwragedd, o flwyddyn i flwyddyn, wedi mynychu hyfforddiant sgiliau ac ymarfer a chael eu profi'n llwyddiannus**<br><br>**Gall o leiaf 20 o fydwragedd ddisgrifio'r broses sgiliau ac ymarfer, pryd y dilynwyd yr hyfforddiant hwn ddiwethaf a sut y cawsant eu profi** | **Ceir rhywfaint o dystiolaeth o gofnod hyfforddiant ond nid yw'n gyfredol nac yn dangos gwelliant parhaus o ran presenoldeb**<br><br>**Ceir cofnod clir i ddangos bod 90 - 95% o fydwragedd, o flwyddyn i flwyddyn, wedi mynychu hyfforddiant sgiliau ac ymarfer a chael eu profi'n llwyddiannus.**<br><br>**Gall o leiaf 10 o fydwragedd ddisgrifio'r broses sgiliau ac ymarfer, pryd y dilynwyd yr hyfforddiant hwn ddiwethaf a sut y cawsant eu profi** | **Nid oes cynllun hyfforddiant wedi'i sefydlu i gefnogi presenoldeb na gwelliant yn y niferoedd sy'n mynychu**<br><br>**Mae llai na 90% o fydwragedd wedi mynychu hyfforddiant sgiliau ac ymarferion gorfodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mewn blynyddoedd blaenorol**<br><br>**Gall llai na 10 o fydwragedd ddisgrifio'r broses sgiliau ac ymarfer, pryd y dilynwyd yr hyfforddiant hwn ddiwethaf a sut y cawsant eu profi** |
| **Sylwadau'r AGLI**<br><br>Cyflwynwyd tystiolaeth gref ar gyfer y safon hon gydag enghreifftiau niferus o raglenni hyfforddi, llyfrau gwaith Excel yn dangos presenoldeb flwyddyn ar ôl blwyddyn ac amrywiaeth o ddulliau addysgu a phrofi a ddefnyddiwyd i gadarnhau'r hyn a ddysgwyd. Fodd bynnag, roedd yn anodd canfod a oedd y dystiolaeth yn ymwneud â phob un o'r tri safle gan ei bod i raddau helaeth i'w gweld yn cyfeirio at safle Caerfyrddin, ac eithrio rhaglenni praeseptoriaeth a chymhwysedd bydwragedd /bydwragedd cymunedol | | | | |

| |
|---|
| newydd eu penodi a oedd yn amlwg yn ymwneud â Hywel Dda i gyd. Roedd rhywfaint o'r gwaith senario a chwis yn arloesol ac yn greadigol ac roedd hyn, yn ogystal â'r arfer o addasu sgiliau ac ymarferion ar gyfer y lleoliad cymunedol, yn arfer da iawn ac yn haeddu cael eu cyflwyno ar draws y BILl ac ar draws Cymru. |
| **Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**<br><br>Dylai'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd barhau i geisio cyfleoedd i rannu rhywfaint o'r arfer creadigol ac arloesol ar draws y tri lleoliad. Dylid mabwysiadu'r gronfa ddata Excel i fonitro hyfforddiant a phresenoldeb flwyddyn ar ôl blwyddyn ledled y BILl hefyd. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|
| V6 a V7 | **Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cadw cofnodion ynglŷn â gweithgareddau Goruchwylio am 7 mlynedd. *Rheol 12.* Caiff cofnodion goruchwylio eu storio mewn ffordd sy'n cynnal cyfrinachedd. *Rheol 12.*** | ***Tystiolaeth o adolygiadau goruchwylio yn cael eu cadw am o leiaf 7 mlynedd yn y ffeil.***<br><br>***Ym mhob ardal cedwir cofnodion goruchwylio mewn man cyfrinachol ac mewn lle gwahanol i wybodaeth cyflogaeth/Adnoddau Dynol.***<br><br>***Tystiolaeth 2012/13***<br>Arfer yn parhau fel uchod | **2012/13 Dim camau gweithredu newydd wedi'u cynllunio** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau: Cryf Cymedrol Gwan** | |

| V6 a V7 **Canlyniad:** | **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
|---|---|---|---|
| **AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gref.**<br>**Nid awgrymwyd unrhyw gamau datblygu.**<br>**2012/13**<br>**Nid aseswyd y safon hon** | **Ceir man penodol sydd wedi ei nodi'n eglur ar gyfer cadw cofnodion goruchwylio nad ydynt yn rhan o unrhyw ffeiliau Adnoddau Dynol eraill.**<br><br>**Gellir dangos bod y cofnodion hyn yn mynd yn ôl o leiaf 7 mlynedd**<br><br>**Gall Goruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio'r broses y byddent yn ei dilyn pe byddent yn cael trafferth cadw cofnodion yn lleol** | **Ceir man lle y cedwir cofnodion goruchwylio, ond maent yn tueddu i gael eu cadw gyda ffeiliau Adnoddau Dynol eraill, er eu bod yn dal ar wahân ac nad oes modd i bobl eraill gael atynt**<br><br>**Ni ellir dangos bod y cofnodion yn mynd yn ôl 7 mlynedd**<br><br>**Gall Goruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio rhan o'r broses y byddent yn ei dilyn pe byddent yn cael trafferth cadw cofnodion yn lleol** | **Nid oes man penodol ar gael ac mae ffeiliau goruchwylio yn cael eu cadw gyda ffeiliau rheoli/Adnoddau Dynol sydd ar gael i bobl eraill**<br><br>**Ychydig o gofnodion a gedwir yn ymwneud â blynyddoedd blaenorol, neu ddim o gwbl**<br><br>**Nid yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn gallu disgrifio'n ddigonol yr hyn y byddent yn ei wneud pe byddent yn cael trafferth cadw cofnodion yn lleol** |

**Sylwadau'r AGLI**

Roedd hwn yn faes cryf o gydymffurfiaeth heb unrhyw bryderon wedi'u codi gan Oruchwylwyr Bydwragedd na bydwragedd. Dangoswyd cyfleusterau storio i'r AGLI ac roeddent yn cyd-fynd â'r safonau. Gallai pob Goruchwyliwr Bydwragedd ddisgrifio'r broses o archifo cofnodion neu basio i'r AGLI pe byddai anawsterau'n codi, a gwellid gweld tystiolaeth a oedd yn cwmpasu'r cyfnod saith mlynedd.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Nid oes argymhellion ar gyfer datblygu

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V8 | **Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael cymorth gyda'u tasgau gweinyddol yn unol â chyllid yr AGLI.** | ***Nid oes cymorth gweinyddol gan unrhyw ardal.***<br>**Tystiolaeth 2012/13**<br>Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael eu cynorthwyo gan swyddog gweinyddol i drefnu cyfarfodydd, teipio cofnodion, ysgrifennu llythyrau ac ati<br>Swyddog yr AGLI i gwrdd â'r swyddog gweinyddol yn yr ymweliad archwilio | | ***Adolygu arian ac oriau sydd ar gael i gefnogi cynorthwyydd gweinyddol.***<br><br>**2012/13 Dim camau gweithredu newydd wedi'u cynllunio** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V8 **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth wan.**<br>**Gwnaed argymhellion ar gyfer gweithredu.** | | **Ceir swyddog gweinyddol penodol sy'n gallu dangos ei swyddogaeth yn eglur o ran cynorthwyo Goruchwylwyr Bydwragedd trwy gofnodion a chyfathrebu ar lafar** | **Mae rhywfaint o amser wedi'i neilltuo ar gyfer materion gweinyddol, ond nid yw deiliad unigol y swydd yn gallu dangos cofnodion cystal o'i gwaith na'i ddisgrifio'n dda** | **Gellir gweld trwy adolygu cofnodion ac wrth drafod nad oes amser wedi'i neilltuo mewn gwirionedd ar gyfer cymorth gweinyddol** |

**Sylwadau'r AGLI**
**Diweddarwyd 2012/13**

Yng ngoleuni pryderon a godwyd yn archwiliad y llynedd o ran diffyg cymorth ysgrifenyddol, penderfynodd tîm Goruchwylwyr Bydwragedd Hywel Dda ar ddull gwahanol o drefnu'r gwaith gweinyddol, gan yr ystyriwyd nad oedd yn ymarferol defnyddio un person ar gyfer teipio cofnodion a nodiadau oherwydd y ddaearyddiaeth. Felly prynwyd 3 gliniadur a'r meddalwedd cysylltiedig a chofion bach wedi'u hamgryptio fel bod cyfrifiadur penodol ar gael i'r goruchwylwyr ar bob safle. Nod hyn yw sicrhau bod cyfleusterau ar gael ar unwaith i Oruchwylwyr Bydwragedd deipio eu gwaith eu hunain yn fwy parod, gan yr ystyriwyd eu bod yn gwneud hynny, i raddau helaeth, o'r blaen beth bynnag. Mae un o'r ysgrifenyddesau cyffredinol yn dal i deipio cofnodion a threfnu cyfarfodydd ar adegau ond mae'n amheus o hyd a yw hyn ar gyfer y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd ehangach. Dim ond newydd gael eu comisiynu yr oedd y cyfrifiaduron ar adeg yr ymweliad archwilio ac nid oedd adroddiad ar eu llwyddiant neu fel arall ar gael i lywio'r broses. Felly, heb brawf digonol ni ellir ond asesu bod y safon hon wedi cael ei bodloni â thystiolaeth wan eleni.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**
**Diweddarwyd 2012/13**

Bydd yr AGLI yn parhau i archwilio llwyddiant y camau gweithredu a gynlluniwyd dros y ddau chwarter i ddod, i sicrhau bod arian AGIC, a ddefnyddiwyd i brynu'r cyfrifiaduron, wedi gwneud gwahaniaeth. Gofynnir am safbwyntiau Goruchwylwyr Bydwragedd yn uniongyrchol drwy gyfarfodydd deufisol y Goruchwylwyr Bydwragedd.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V9 | **Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth a chaiff y trafodion eu cofnodi.** | ***Tystiolaeth o gyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Cofnodwyd y rhai a oedd yn bresennol (gweler y ffeil). Gwelwyd cylch gorchwyl ar gyfer y grŵp***<br><br>**Tystiolaeth 2012/13**<br>Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer Hywel Dda gyfan gyda chynllun gweithredu clir ar gyfer y goruchwylwyr. | | ***Cynnal cyfarfodydd lleol misol y gellir eu bwydo'n ôl i gyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd Hywel Dda; angen cynllunio dyddiadau drwy gydol y flwyddyn a hysbysu Goruchwylwyr Bydwragedd o bob cyfarfod yn lleol a thrwy Hywel Dda. Angen sefydlu swyddogaethau goruchwylio:***<br><br>***1. Cyswllt.***<br>***2. Cysylltiad.***<br>***3. Cronfa ddata – cydlynwyr goruchwylio.***<br><br>*2012/13* ***Dim camau gweithredu newydd wedi'u cynllunio*** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V9 **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gymedrol.**<br>**Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygu.**<br><br>**2012/13**<br>**Nid aseswyd y safon hon ond mae angen datblygu pellach ar argymhelliad o'r flwyddyn flaenorol** | | **Ceir cofnodion eglur o gyfarfodydd gyda Chylch Gorchwyl a chynllun gweithgarwch/gosod agenda**<br><br>**Cofnodir pawb sy'n bresennol yn eglur ac mae lefel presenoldeb o 70 – 75% ym mhob cyfarfod**<br><br>**Ceir proses eglur ar gyfer dosbarthu cofnodion a neilltuo camau gweithredu i Oruchwylwyr Bydwragedd**<br><br>**Roedd 100% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd yn gallu disgrifio'r uchod i gyd** | **Ceir cofnodion o gyfarfodydd ond nid oes proses eglur ar gyfer gosod yr agenda na Chylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp**<br><br>**Cofnodir pawb sy'n bresennol ac mae lefel presenoldeb o 50 - 70% ym mhob cyfarfod**<br><br>**Ceir proses ar gyfer dosbarthu cofnodion ond nid yw mor amlwg sut y cymerir camau gweithredu a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny**<br><br>**Roedd 75% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd yn gallu disgrifio'r uchod i gyd** | **Nid oes trywydd cofnodion y gellir ei archwilio, Cylch Gorchwyl na chynllun eglur ar gyfer gosod agenda**<br><br>**Mae'n ymddangos bod llai na 50% yn bresennol yn rheolaidd ym mhob cyfarfod**<br><br>**Nid oes proses wedi'i sefydlu ar gyfer dosbarthu cofnodion na neilltuo camau gweithredu i Oruchwylwyr Bydwragedd**<br><br>**Roedd llai na 50% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd yn gallu disgrifio'r uchod i gyd** |

**Sylwadau'r AGLI**
**Diweddarwyd 2012/13**

Mae tîm Ceredigion yn parhau i gwrdd yn rheolaidd. Mae ganddynt agenda wedi'i nodi ac mae'r rhan fwyaf o'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn bresennol ym mhob cyfarfod.

| |
|---|
| Bellach mae'r tîm yn cwrdd yn fwy rheolaidd fel tîm Hywel Dda ond roedd presenoldeb yn y saith cyfarfod yn ysbeidiol ar gyfer rhai goruchwylwyr gydag 11 o 19 yn rheolaidd yn mynychu tri neu lai o gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn. Roedd Cynllun Gweithredol Goruchwyliaeth yn y ffeil dystiolaeth ond nid oedd dyddiadau ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu, llawer o fylchau o ran pwy oedd yn arwain ar weithredoedd a dim gwybodaeth ynglŷn â'r hyn a gyflawnwyd. Mae'r defnydd o gerdyn gweithredu rhwng y cyfarwyddwr bydwreigiaeth cyswllt a'r penaethiaid sir yn offeryn defnyddiol y gellid ei ddefnyddio i ddiweddaru'r cynllun gweithredol neu gallai'r cynllun ddisodli'r cerdyn gweithredu pe cai ei ddiweddaru'n rheolaidd. |
| **Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**<br>**Diweddarwyd 2012/13**<br><br>Gwelwyd tystiolaeth o waith tîm agosach yn Hywel Dda a chysondeb cynyddol o ran datblygu polisïau a'u rhoi ar waith ar draws y BILl. Gwelwyd gwell trefn o rannu arfer gorau yn sgil gwersi a ddysgwyd ac o rannu meysydd eraill o waith da – rhywbeth a oedd wedi ei gyfyngu'n flaenorol i'r siroedd. Fodd bynnag, mae angen o hyd i Oruchwylwyr Bydwragedd ystyried gweithio traws sirol, symud y cynllun gweithredu ymlaen nes iddo gael ei gwblhau a sefydlu system ar alwad sengl yn unol â gweddill Cymru. Gall hyn helpu i bennu'r gwahaniaeth rhwng swyddogaeth y Goruchwyliwr Bydwragedd a'i phrif swyddogaeth, yn arbennig pan fydd ar alwad, sydd wedi bod yn her. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V10 | **Mae mecanweithiau effeithiol ar waith i sicrhau bod pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn derbyn gwybodaeth a ddosberthir gan gyrff statudol.** | ***Anfonwyd drwy negeseuon ebost grŵp a dosbarthwyd gan yr AGLI.***<br><br>**Tystiolaeth 2012/13**<br>Strwythur newydd wedi'i sefydlu ar gyfer cyfathrebu ar draws Hywel Dda a chyda swyddog yr AGLI<br>Mae system ebost ar gael i bob Goruchwyliwr Bydwragedd ac mae gan arweinydd ym mhob sir gyfrifoldeb i ddosbarthu gwybodaeth i Oruchwylwyr Bydwragedd lleol | | ***Trywydd clir er mwyn sicrhau y derbynnir y negeseuon ebost. Penderfynu ar unigolion sy'n dosbarthu'r wybodaeth hon e.e. goruchwyliwr cyswllt neu swyddog gweinyddol.***<br><br>*2012/13* ***Dim camau gweithredu newydd wedi'u cynllunio*** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V10 **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gymedrol.**<br>**Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygu.**<br><br>**2012/13**<br>**Nid aseswyd y safon hon ond mae angen datblygu pellach ar argymhelliad y flwyddyn flaenorol** | | **Mae proses eglur wedi'i sefydlu y gellir dangos ei bod yn sicrhau bod pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn derbyn gwybodaeth gan gyrff statudol h.y. y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol, yr Awdurdod Goruchwylio Lleol, yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion**<br><br>**Gallai 100% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd ddisgrifio'r broses** | **Mae proses rannol wedi'i sefydlu, ond nid oes tystiolaeth eglur i ddangos sut y mae pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn derbyn y wybodaeth**<br><br>**Gallai 75% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd ddisgrifio'r broses** | **Nid oes proses eglur wedi'i sefydlu ac mae'n ymddangos bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ar hap ac yn ôl y gofyn**<br><br>**Gallai llai na 50% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd ddisgrifio'r broses** |

**Sylwadau'r AGLI**
**Diweddarwyd 2012/13**

Nid oes gan Oruchwylwyr Bydwragedd Hywel Dda broses ysgrifenedig sy'n nodi sut y dosberthir gwybodaeth, heblaw trwy ebost grŵp ar gyfer cyfathrebu mewnol. Mae unigolion a enwyd wedi cael eu nodi ar gyfer swyddogaethau penodol gan gynnwys dosbarthu gwybodaeth yn lleol. Mae'r AGLI wedi nodi gwelliant sylweddol mewn cyfathrebu rhwng Goruchwyliwr Bydwragedd cyswllt Hywel Dda, yr AGLI a'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd. Mae'r broses gyfathrebu a sefydlwyd gan y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth Cyswllt yn ymddangos yn effeithiol iawn ac ystyriwyd ei bod yn gweithio'n dda.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**
**Diweddarwyd 2012/13**

| |
|---|
| Mae angen i’r arweinwyr sirol ystyried beth, os o gwbl, y mae angen iddynt ei wneud i sicrhau eu bod yn teimlo’n rhan o’r agenda oruchwylio. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V11 | **Mae strategaethau fframweithiau Llywodraethu Clinigol Lleol yn cydnabod goruchwyliaeth statudol i fydwragedd.** | ***Tystiolaeth o rai cysylltiadau a chydnabyddiaeth o swyddogaeth Goruchwylwyr Bydwragedd mewn meysydd llywodraethu.***<br><br>**Tystiolaeth 2012/13**<br>Goruchwylwyr Bydwragedd yn bresennol mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol a chyfarfod ansawdd a diogelwch a thystiolaeth i'w gweld drwy gofnodion cyfarfodydd. | | ***Angen cynyddu ymwybyddiaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn bresennol yn rhinwedd eu swydd fel goruchwylwyr.***<br><br>***Cyflwyno'r dangosfwrdd mamolaeth mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol ac ansawdd a diogelwch o fewn siroedd.***<br><br>**2012/13 Dim camau gweithredu newydd wedi'u cynllunio** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau: Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V11 **Canlyniad:**<br><br>**2012/13**<br>**AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gymedrol.**<br>**Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygu.** | | **Ceir polisi ysgrifenedig eglur yn yr adran llywodraethu clinigol sy'n ystyried y rhyng-gysylltiad rhwng y timau llywodraethu Clinigol/Goruchwylwyr Bydwragedd**<br><br>**Ceir cofnodion rheolaidd o gyfarfodydd lle y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn bresennol yn rhinwedd eu swyddogaeth oruchwylio ac yn dangos eu cyfraniad at yr agenda llywodraethu clinigol** | **Nid oes polisi ysgrifenedig wedi'i sefydlu, ond mae rheolwyr llywodraethu clinigol yn gallu disgrifio'r hyn y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud a sut y maent yn cyfrannu at yr agenda llywodraethu clinigol ar hyn o bryd**<br><br>**Roedd Goruchwyliwr Bydwragedd yn bresennol yn y pwyllgor llywodraethu clinigol priodol, neu wedi cyfrannu ato, ar 2 achlysur o leiaf yn ystod y flwyddyn flaenorol** | **Nid oes tystiolaeth eglur i ddangos bod y tîm llywodraethu clinigol yn cydnabod Goruchwylwyr Bydwragedd, ac ni allant ddisgrifio'r rhyng-gysylltiad yn eglur**<br><br>**Nid oes tystiolaeth bod Goruchwyliwr Bydwragedd yn mynychu unrhyw bwyllgor llywodraethu clinigol yn ei hawl ei hun hyd yn oed os yw hi yno yn rhinwedd dwy swyddogaeth** |

**Sylwadau'r AGLI**
**Diweddarwyd 2012/13**

Nid oes polisi ysgrifenedig o hyd na siart llif yn disgrifio sut y mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn rhyng-gysylltu â'r timau llywodraethu clinigol ehangach ond roedd y Goruchwylwyr Bydwragedd yn gallu disgrifio eu hymwneud a'u rhyngweithio â'r grwpiau a'r fforymau ansawdd a diogelwch, Risg, Obstetreg a Gynaecoleg, a Dysgu o Ddigwyddiadau ar draws y BILI. Mae'r strwythurau a'r prosesau'n amrywio ar draws y tair sir, gan ei gwneud yn anodd cymharu prosesau. Roedd yn ymddangos bod rhywfaint o welliant wedi bod o ran presenoldeb Goruchwylwyr Bydwragedd yn y strwythurau llywodraethu ehangach, er nad oedd y defnydd o'r teitl Goruchwyliwr Bydwragedd yn gyson. Gan nad oedd neb yn cynrychioli llywodraethu clinigol yn yr ymweliad archwilio, collwyd cyfle i fesur i ba raddau yr oedd gwaith rhyngddisgyblaethol wedi gwella ers y flwyddyn ddiwethaf.

| |
|---|
| **Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**<br>**Diweddarwyd 2012/13**<br><br>Mae angen i'r Goruchwylwyr Bydwragedd ddyfeisio proses ysgrifenedig neu siart llif yn dangos sut y byddant yn rhyngweithio gyda'r fforymau llywodraethu clinigol ehangach a sicrhau bod rota o Oruchwylwyr Bydwragedd a fydd yn mynychu fforymau llywodraethu clinigol perthnasol. Ym mhob cyfarfod dylid nodi bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn bresennol fel Goruchwyliwr Bydwragedd ac yn dod â'r safbwynt honno yn ogystal ag unrhyw reolwyr bydwreigiaeth a allai fod yn mynychu. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V12 | **Mae rhyng-gysylltiad amlwg rhwng goruchwylio a rheoli risg wrth ymchwilio i ddigwyddiadau critigol.** | ***Tystiolaeth o ddigwyddiadau clinigol o bob ardal a chyfraniad gan oruchwylwyr.***<br>Tystiolaeth 2012/13<br>Goruchwylwyr Bydwragedd yn monitro ac ymchwilio Digwyddiadau Datix. Goruchwylwyr Bydwragedd yn bresennol mewn cyfarfodydd ansawdd a diogelwch a gwybodaeth wedi'i dosbarthu drwy'r siroedd.<br>Tystiolaeth o gathetr a bwndeli Mewnwythiennol ar waith. Gwybodaeth dangosfwrdd wedi'i thrafod mewn cyfarfodydd ansawdd a diogelwch.<br>Llawer iawn o dystiolaeth i ddangos bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd rhan mewn gweithdrefnau ymchwilio ac yn trafod y rhain gyda bydwragedd. Byddant yn trafod achosion yn ystod diwrnod yr Archwiliad.<br><br>Sicrhau y rhoddir cefnogaeth i fydwragedd sy'n rhan o'r broses ac y cydymffurfir ag argymhellion.<br><br>Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â'r fforwm ward esgor ac adolygiadau achosion. Hefyd yn ymwneud â dysgu yn sgil digwyddiadau. Gweler y dystiolaeth ar Ymweliad Archwilio. | | ***Angen sicrhau nad oes gorgyffwrdd rhwng y swyddogaeth oruchwylio a'r swyddogaeth reoli. Angen herio rheolwyr ynglŷn â phryderon goruchwylio.***<br><br>***Gwahanu swyddogaethau goruchwylio a rheoli drwy gael goruchwyliwr arweiniol o fewn pob sir nad yw'n Bennaeth Bydwreigiaeth.***<br><br>**2012/13 Dim camau gweithredu newydd wedi'u cynllunio** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V12 **Canlyniad:**<br><br>**2012/13**<br>**AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gymedrol.**<br>**Angen datblygu pellach ar argymhellion y flwyddyn flaenorol** | | **Ceir cylch gorchwyl eglur ar gyfer adolygu digwyddiadau difrifol sy'n cynnwys yr angen i Oruchwylwyr Bydwragedd fod yn rhan o'r broses**<br><br>**Pan fo canlyniadau Dadansoddiad o Wraidd y Broblem a gynhaliwyd ynglŷn â digwyddiad difrifol yn cael eu hadolygu ar sail tîm amlddisgyblaethol, ceir tystiolaeth eglur bod Goruchwyliwr Bydwragedd wedi** | **Nid oes cylch gorchwyl ysgrifenedig sy'n nodi y dylai Goruchwylwyr Bydwragedd fod yn rhan o gyfarfodydd adolygu digwyddiadau difrifol, ond gall aelodau staff llywodraethu clinigol a Goruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio bod hyn yn digwydd**<br><br>**Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd a'r tîm llywodraethu clinigol yn cydweithio mewn adolygiad o ddigwyddiad difrifol ac yn arbennig pan fo gwersi i'w dysgu o ran arfer bydwreigiaeth** | **Nid oes cydnabyddiaeth fod angen i Oruchwylwyr Bydwragedd fod yn rhan o'r broses adolygu digwyddiadau difrifol**<br><br>**Nid oes tystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd adolygu digwyddiadau difrifol ac nid oes proses iddynt rannu gwersi gyda'r tîm bydwreigiaeth** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **bod yn rhan o'r tîm yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Goruchwyliwr Bydwragedd er mwyn gallu rhannu'r gwersi a ddysgwyd** | | |

**Sylwadau'r AGLI**
**Diweddarwyd 2012/13**
Nid oes cylch gorchwyl ar gael sy'n nodi sut y dylai Goruchwylwyr Bydwragedd gyfrannu at yr adolygiad amlddisgyblaethol o ddigwyddiadau difrifol. Nid oedd tystiolaeth i ddangos gweithio ar y cyd gwirioneddol ar ymchwiliadau, gyda Goruchwylwyr Bydwragedd yn gweithio ochr yn ochr â rheolwyr sy'n cynnal ymchwiliad. Cydnabyddir bod tystiolaeth y ceir trafodaethau ar y cyd mewn fforymau wardiau amenedigol ac esgor ynglŷn â digwyddiadau clinigol, ond nid yw hyn yr un fath â chynnal archwiliad ar y cyd tra'n cydnabod gwahanol swyddogaethau'r Goruchwyliwr Bydwragedd a'r rheolwr. Os gellir ymsefydlu'r broses ar y cyd, byddai hyn yn osgoi dyblygu gwaith i'r unigolion sy'n ymwneud â digwyddiadau, yn sicrhau y cyrhaeddir casgliadau ar yr un pryd nad ydynt yn groes i'w gilydd, ac yn caniatáu ar gyfer adfer ar y cyd os yw'n briodol, a hynny mewn ffordd amserol. Mae Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cael eu llethu'n arbennig gan yr angen i gwblhau'r holl broses ymchwilio yn amserol.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Mae angen i Oruchwylwyr Bydwragedd barhau i ystyried gwaith y tîm rheoli corfforaethol a sut y gall goruchwyliaeth gysylltu â phroses ar y cyd neu gyfrannu ati er mwyn dyblygu llai ar y gwaith a gwella canlyniadau i'r rhai sy'n destun ymchwiliad. Yn yr un modd, dylai'r tîm rheoli risg barhau i fanteisio ar yr arbenigedd y gall Goruchwylwyr Bydwragedd ei gyfrannu at y broses ymchwilio. Argymhellir y dylai cynllun gwaith y Goruchwylwyr Bydwragedd gynnwys amcan a fydd yn eu hannog i weithio'n agosach â thimau rheoli risg er mwyn gallu dangos tystiolaeth o hynny wedyn ar ddiwedd yr archwiliad blynyddol nesaf.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V13 | **Caiff canlyniadau ymchwiliadau i ddigwyddiadau critigol eu dosbarthu er mwyn rhoi sail i arferion.** | ***Caiff y rhain eu dosbarthu gan Oruchwylwyr Bydwragedd mewn cyfarfodydd wardiau, sesiynau diweddaru a llwybrau amlddisgyblaeth megis fforwm ward esgor.***<br><br>***Tystiolaeth yn y ffeil – enghreifftiau'n cynnwys cadw cofnodion. Maes arfer a amlygwyd o fewn adolygiadau achosion.***<br>**Tystiolaeth 2012/13**<br>Gwybodaeth yn cael ei dosbarthu drwy 'Midwifery Matters' a gweithdai pan nodir diffygion mewn ymarfer h.y. hyfforddiant siart twf, gweithdai cadw cofnodion<br>Tystiolaeth o newidiadau mewn ymarfer yn sgil cyhoeddi dogfennau ac ymchwiliadau Goruchwylwyr Bydwragedd yn cofnodi manylion o amgylch y rhain. Er enghraifft Dystocia ysgwydd, PPH, a chofnodi CTG.<br><br>Tystiolaeth y cynhelir archwiliadau o'r drefn o gadw cofnodion. Defnyddio offeryn cadw cofnodion mamolaeth ac offeryn nodiadau Bwrdd Iechyd i sicrhau cydymffurfiad. Nodiadau a archwiliwyd o safon uchel yn gyffredinol | | **2012/13 Dim camau gweithredu newydd wedi'u cynllunio** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V13 **Canlyniad:**<br><br>**2012/13**<br>**AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gref.**<br>**Dim camau datblygu wedi'u hawgrymu.** | | **Ceir proses eglur a dulliau gwirioneddol o rannu canlyniadau digwyddiadau difrifol gyda bydwragedd yn ymarferol**<br><br>**Ceir enghreifftiau o newidiadau i arferion gwaith y gellir eu rhannu i ddangos bod y broses hon yn gweithio**<br><br>**Ceir tystiolaeth bod unrhyw newidiadau i arferion gwaith sy'n deillio o ganlyniadau digwyddiad difrifol wedi eu harchwilio i sicrhau eu bod wedi arwain at welliant** | **Ceir rhywfaint o dystiolaeth o ddull o rannu canlyniadau digwyddiadau difrifol h.y. cylchlythyr, ond nid yw hyn wedi'i ymsefydlu'n dda**<br><br>**Ceir tystiolaeth anecdotaidd o newidiadau i arferion gwaith ond ni ddilynwyd proses ffurfiol i'w cyflwyno**<br><br>**Ceir tystiolaeth o newidiadau i arferion gwaith ond nid ydynt wedi eu harchwilio i fesur llwyddiant** | **Nid oes proses ffurfiol nac anffurfiol ar gyfer rhannu canlyniadau digwyddiadau difrifol**<br><br>**Nid oes unrhyw ganlyniadau a all ddangos newidiadau i arferion gwaith o ganlyniad i ddigwyddiadau difrifol**<br><br>**Nid oes tystiolaeth o archwilio newidiadau i arferion gwaith** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gall o leiaf 20 o fydwragedd ar lefel ward ddisgrifio'r broses a newid diweddar i arferion gwaith** | **Gall o leiaf 10 o fydwragedd ar lefel ward ddisgrifio'r broses a newid diweddar i arferion gwaith** | **Gall llai na 10 bydwraig ddisgrifio unrhyw beth tebyg i broses ar gyfer rhannu canlyniadau digwyddiadau difrifol a sut y mae'r rhain yn dylanwadu ar newidiadau i arferion gwaith** |

**Sylwadau'r AGLI**
**Diweddarwyd 2012/13**

Fel yn y flwyddyn flaenorol gwelwyd enghreifftiau o arfer da dan y safon hon, yn amlygu sut y mae gwersi'n cael eu rhannu mewn pwyllgorau lleol a grwpiau dysgu o ddigwyddiadau, fforymau bydwragedd a phwyllgorau ansawdd a diogelwch. Mae'r defnydd o SBAR a dysgu seiliedig ar ddigwyddiadau go iawn yn arfer da pellach ac mae'n dangos newidiadau gwirioneddol sydd wedyn yn cael eu hail archwilio er mwyn cadarnhau eu bod yn llwyddo. Gwelwyd rhagor o dystiolaeth hefyd o Oruchwylwyr Bydwragedd yn gweithio gyda'r rheolwyr gwella ansawdd i rannu gwersi o fewn y tîm bydwreigiaeth a'r tîm clinigol ehangach. Roedd y cylchlythyr Midwifery Matters yn ffordd arall o rannu hyfforddiant pwysig a'r wybodaeth ddiweddaraf yn ogystal ag amlygu Pwyntiau Arfer Da y Mis. Un pwynt nodedig oedd y ffaith bod Goruchwylwyr Bydwragedd wedi hwyluso dau ddigwyddiad dysgu proffil uchel ar ddehongli CTG ac Asesiad Twf Mewngroth. Trefnwyd y rhain o ganlyniad i wersi a ddysgwyd o broses ymchwilio goruchwylwyr ar ôl digwyddiadau difrifol. Goruchwylwyr Bydwragedd hefyd a arweiniodd y broses o ychwanegu siartiau MEOWS at ochr gwely'r claf ac at y llyfr ôl-enedigol sydd newydd ei ddatblygu, gyda chyfarwyddiadau ar y cefn ar gyfer sbardunau, ac mae'n enghraifft wych o ddylanwadu ar ymarfer.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Nid oes argymhellion ar gyfer datblygu ond anogir y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd i barhau â'u hagwedd arloesol at ddysgu gwersi a chymryd pob cyfle i rannu enghreifftiau o arfer da â Goruchwylwyr Bydwragedd eraill a staff BILl ac ar draws Cymru.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V14 | **Caiff y cofnodion a gedwir gan bob bydwraig eu harchwilio'n flynyddol.** ***Rheol 9.*** | ***Cynhelir archwiliad o nodiadau o fewn yr offeryn archwilio cyfredol. Tystiolaeth o hyn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf (gweler y ffeil).***<br><br>**Tystiolaeth 2012/13**<br>Polisi corfforaethol wedi'i sefydlu yn pennu'r offeryn archwilio a'r rhaglen archwilio<br>(Fel Uchod V13)<br>Tystiolaeth y cynhelir archwiliadau o'r drefn o gadw cofnodion. Defnyddio offeryn cadw cofnodion mamolaeth ac offeryn nodiadau Bwrdd Iechyd i hysbysu a sicrhau cydymffurfiad. Nodiadau a archwiliwyd o safon uchel yn gyffredinol.<br><br>Rhaid i bob bydwraig gyflwyno 2 set o nodiadau i'w harchwilio yn y Cyfweliad Blynyddol.<br><br>Mae materion a nodwyd mewn archwiliadau yn ymwneud â chadw cofnodion neu eto o Ymchwiliad Goruchwylio/Adolygiadau Clinigol yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd amlddisgyblaeth yn ogystal ag i'r Unigolyn gweler tystiolaeth Adroddiad SBAR Goruchwylio | | ***Gwerthuso effeithiolrwydd yr offeryn archwilio cyfredol i sicrhau llwybr clir ar gyfer dosbarthu canfyddiadau a meysydd i'w gwella ymhellach.***<br><br>***Targedu meysydd o gydymffurfiad gwael drwy'r archwiliad.***<br><br>**2012/13 Dim camau gweithredu newydd wedi'u cynllunio** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V14 | **Canlyniad:**<br><br>**2012/13**<br>**AGLI - BODLONWYD â thystiolaeth gref yn bennaf.**<br>**Mae angen datblygu pellach ar argymhellion o'r flwyddyn flaenorol** | **Ceir proses ysgrifenedig eglur i nodi pa brosesau archwilio cofnodion a fydd yn cael eu cynnal, pa mor aml, pwy fydd yn cymryd rhan a sut y bydd y canlyniadau ar gyfer gwella yn cael eu rhannu gyda phob bydwraig**<br><br>**Ceir enghreifftiau o offerynnau archwilio cofnodion i ddangos sut y cynhelir yr archwiliadau**<br><br>**Ceir enghreifftiau o archwiliadau a gynhaliwyd o flwyddyn i** | **Nid oes proses ysgrifenedig wedi'i sefydlu ar gyfer archwilio cofnodion ond mae tystiolaeth bod hyn yn digwydd yn rheolaidd, mewn gwahanol fformatau, gan wahanol bobl/timau a bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu'n aml**<br><br>**Ceir un offeryn archwilio o leiaf i ddangos sut y cynhelir archwiliad**<br><br>**Ceir rhai enghreifftiau o archwiliadau blaenorol ond nid** | **Nid oes proses wedi'i sefydlu ac nid yw'n eglur pa mor aml, gan bwy na sut y mae archwiliadau'n cael eu cynnal**<br><br>**Nid oes unrhyw offerynnau archwilio cydnabyddedig i ddangos sut y bydd archwiliadau cadarn yn cael eu cynnal neu wedi cael eu cynnal**<br><br>**Dim ond enghreifftiau ad hoc a geir o archwiliadau cofnodion** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **flwyddyn a pha wersi a ddysgwyd o bob un ohonynt** | **ydynt yn systematig** | |
| | **Ceir enghreifftiau rheolaidd o sut y mae'r gwersi a ddysgwyd o archwiliadau yn cael eu rhannu â phob bydwraig** | **Ceir rhai enghreifftiau o wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu, ond nid yw hyn yn gyson** | **Ceir enghreifftiau ad hoc o rannu'r gwersi a ddysgwyd** |
| | **Ceir tystiolaeth o archwilio a gwella rhwng adolygiadau** | **Ceir tystiolaeth o ail-archwilio, ond mae gwelliant parhaus yn llai amlwg** | **Prin yw'r dystiolaeth o ail-archwilio neu welliannau, neu ddim tystiolaeth o gwbl** |
| | **Gall o leiaf 20 o fydwragedd ddisgrifio pob un o'r camau uchod a siarad am newidiadau i arferion gwaith o ganlyniad** | **Gall o leiaf 10 o fydwragedd ddisgrifio'r rhan fwyaf o'r camau uchod a siarad am sut y mae hyn wedi dylanwadu ar arferion gwaith** | **Gall llai na 10 o fydwragedd ddisgrifio unrhyw un o'r camau uchod neu siarad am sut y mae archwiliadau cofnodion yn dylanwadu ar newidiadau i arferion gwaith** |

**Sylwadau'r AGLl**
**Diweddarwyd 2012/13**

Nid oes gan Oruchwylwyr Bydwragedd y BILl broses ysgrifenedig i lywio'r dull o archwilio cofnodion mewn ffordd wedi'i chynllunio mewn unrhyw flwyddyn benodol h.y. pa mor aml y gwneir hyn a thrwy ba ddull. Roedd tair enghraifft o archwiliadau cofnodion yn y ffeil dystiolaeth ar gyfer 2012 ac fe'u cwblhawyd gan ddefnyddio dau offeryn archwilio gwahanol ar gyfer yr un cofnodion achos. Fodd bynnag, nid oedd adroddiad cyfansawdd ar gyfanswm y cofnodion a archwiliwyd yn ystod y flwyddyn na'r broses a ddefnyddiwyd, yn nodi tueddiadau a themâu a chamau a gynlluniwyd i roi sylw i'r diffygion. Ni welwyd tystiolaeth o broses adolygu flynyddol y Goruchwylwyr Bydwragedd i ddangos bod dau gofnod achos i bob bydwraig wedi cael eu harchwilio a pha faterion, os o gwbl, oedd wedi cael eu nodi. Cyflwynwyd tystiolaeth dan safonau eraill sy'n dangos sut y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn rhoi adborth ar y gwersi a ddysgwyd o'r broses archwilio cofnodion er mwyn dylanwadu ar newidiadau mewn ymarfer. Roedd y ffeil dystiolaeth yn cynnwys cyflwyniad llawn gwybodaeth a roddwyd gan y fydwraig Datblygu Arfer sydd hefyd yn Oruchwyliwr Bydwragedd ond nid yw'n glir at bwy y cyfeiriwyd y cyflwyniad. Roedd y cylchlythyr Midwifery Matters a fforymau eraill y cyfeirir atynt dan V13 hefyd yn rhoi enghreifftiau o ddysgu gwersi a nodiadau ynglŷn â materion allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt o ran cadw cofnodion.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**
**Diweddarwyd 2012/13**

Mae angen i'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd ddyfeisio cynllun archwilio ar gyfer y BILl i gyd sy'n cwmpasu proses a math yr archwiliad, pa mor aml y dylid eu cynnal, sut y bydd tueddiadau a themâu yn cael eu nodi, a sut y bydd y gwersi a ddysgir yn cael eu bwydo'n ôl ac yna'n cael eu hail archwilio. Dylid cyflwyno'r dystiolaeth hon mewn adroddiad cyfansawdd i ddangos sut y dylanwadwyd ar newidiadau mewn ymarfer flwyddyn ar ôl blwyddyn.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V15 | **Rhoddir cyhoeddusrwydd i wybodaeth sy'n berthnasol i oruchwylio bydwragedd yn statudol, e.e. drwy gyfrwng cylchlythyrau, bwletinau, gwefannau, e-bost, negeseuon llais ac adroddiadau gan yr AGLI, Cyflogwyr a Goruchwylwyr Bydwragedd.** | ***Hysbysfwrdd ar gyfer goruchwyliaeth ym mhob ardal. Cylchlythyrau gwybodaeth gan yr AGLI wedi'u hargraffu ac yn weladwy yn yr ardal glinigol i bob aelod o staff eu gweld.***<br><br>***Cynnwys Goruchwyliwr Bydwragedd ym mhob ardal gyda'r Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth ac agweddau ar oruchwyliaeth a'r swyddogaeth wedi'u trafod yn y grwpiau ac mewn addysg. Rhoddir taflenni i bob menyw ar ôl 16 wythnos ac maent ar gael yn yr ardaloedd clinigol.***<br>**Tystiolaeth 2012/13**<br>Bwrdd Goruchwylio ar yr Uned<br>Rhoddir gwybodaeth i fenywod ar ôl 16 wythnos | | ***Sicrhau bod adroddiadau blynyddol ar gael ar y fewnrwyd.***<br><br>**2012/13 Dim camau gweithredu newydd wedi'u cynllunio** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V15 **Canlyniad:**<br><br>**2012/13**<br>**AGLI - BODLONWYD â thystiolaeth gref yn bennaf.**<br>**Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygu.** | | **Ceir tystiolaeth amlwg y rhoddir cyhoeddusrwydd i Oruchwylwyr Bydwragedd yn yr holl fannau y mae menywod a theuluoedd yn ymweld â hwy**<br><br>**Mae taflen y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar Oruchwylwyr Bydwragedd ar gael ynghyd â dogfennau ysgrifenedig eraill sy'n esbonio wrth fenywod pam y gallent fod yn dymuno cysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd, a sut i wneud hynny**<br><br>**Ceir gwybodaeth ar wefan y Bwrdd Iechyd Lleol am swyddogaeth y Goruchwyliwr Bydwragedd a sut i gysylltu â hi**<br><br>**Ceir tystiolaeth bod yr adroddiad blynyddol yn cael ei rannu gyda fforymau defnyddwyr megis y** | **Mae rhywfaint o wybodaeth am Oruchwylwyr Bydwragedd yn amlwg, ond nid yw'n gyson ym mhob man lle y gwelir menywod a theuluoedd**<br><br>**Mae taflen y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gael ond nid oes gwybodaeth ychwanegol wedi'i pharatoi'n lleol ac nid yw'n eglur i fenywod pam y byddent efallai'n dymuno cysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd**<br><br>**Ceir cyfeiriad at Oruchwylwyr Bydwragedd ar y wefan ond dim manylion ychwanegol**<br><br>**Mae'r adroddiad blynyddol wedi ei rannu gyda'r Bwrdd ond tystiolaeth gyfyngedig sydd i ddangos ei fod** | **Nid oes gwybodaeth am Oruchwylwyr Bydwragedd yn amlwg i aelodau'r cyhoedd ei gweld mewn unrhyw fan**<br><br>**Nid oes taflenni a baratowyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth nac yn lleol ar gael i fenywod**<br><br>**Ni chyfeirir at Oruchwylwyr Bydwragedd ar wefan y Bwrdd Iechyd Lleol**<br><br>**Dim ond gyda'r Bwrdd y rhannwyd yr adroddiad blynyddol, os o gwbl** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth ac ar draws y sefydliad i fyny at lefel y Bwrdd**<br><br>**Mae o leiaf 20 o fydwragedd yn ymwybodol bod cylchlythyr yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yn cael ei rannu gyda bydwragedd a gallant ddisgrifio pa mor ddefnyddiol/perthnasol yr oedd iddynt yn eu harferion gwaith** | **wedi ei rannu'n ehangach**<br><br>**Mae o leiaf 10 o fydwragedd yn ymwybodol o gylchlythyr yr Awdurdod Goruchwylio Lleol a gallant ddisgrifio pa mor ddefnyddiol/perthnasol yr oedd iddynt yn eu harferion gwaith** | **Mae llai na 10 o fydwragedd yn ymwybodol o gylchlythyr yr Awdurdod Goruchwylio Lleol ac yn gallu disgrifio pa mor ddefnyddiol/perthnasol yr oedd iddynt yn eu harferion gwaith** |

**Sylwadau'r AGLl**
**Diweddarwyd 2012/13**

Ar y cyfan roedd tîm adolygu'r AGLl yn teimlo bod goruchwyliaeth yn amlwg drwy hysbysfyrddau yn y rhan fwyaf o ardaloedd clinigol lle mae menywod a theuluoedd yn ymweld, er bod cyhoeddusrwydd yn llai amlwg yn y clinig cynenedigol. Dywedir bod taflen y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael ei rhoi i bob menyw yn eu pecyn cynenedigol ond nid oedd y bydwragedd a gyfwelwyd yn sicr o hyn. Nodwyd cylchlythyr yr AGLl yn yr ardaloedd staff ac roedd bydwragedd yn gallu siarad amdano a'i ddiben. Mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd wedi bod yn arwain ar ddatblygu hysbysfwrdd Safbwyntiau Defnyddwyr lle mae menywod yn rhoi eu sylwadau ar gerdyn post ac yna mae'r camau a gymerir yn cael eu bwydo'n ôl ar y bwrdd Safbwyntiau. Roedd grŵp ffocws wedi cael ei gynnal yn ddiweddar hefyd gyda grŵp o fenywod o wlad Pwyl i ddeall eu hanghenion yn well ond nid oedd yn glir a oedd hwn yn cael ei arwain gan y Goruchwylwyr Bydwragedd. Dywedodd cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth ei bod yn anodd denu defnyddwyr gwasanaeth i eistedd ar fforwm y Pwyllgor a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed gan fod safbwyntiau cryf gan feddygon weithiau. Dywedodd hefyd ei bod yn ymwybodol o adroddiad blynyddol yr AGLl a dogfennau allweddol eraill a oedd wedi cael eu trafod fel eitemau ar yr agenda. Nid oedd y BILl eto wedi cyhoeddi'r adroddiad blynyddol i'r AGLl ar eu gwefan ac fe ddaeth yn hysbys mai camgymeriad technegol oedd hwn oherwydd bod y safle yn cael ei ail adeiladu. Codwyd hyn gyda'r adran TG yn ystod yr ymweliad a chafod y mater ei ddatrys yn gyflym.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**
**Diweddarwyd 2012/13**

Dylai'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd ystyried ffyrdd newydd i ddenu defnyddwyr priodol i fforwm y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth ac ar ôl gwneud hynny, gwneud y fforwm yn haws ei ddefnyddio. Awgrymodd yr adolygydd lleyg ddefnyddio Face Book neu Twitter fel ffordd i gynrychiolwyr y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth ar draws Cymru rannu safbwyntiau ac enghreifftiau o arfer da a chefnogi ei gilydd.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V16 | **Caiff Goruchwylwyr Bydwragedd eu cynnwys ym mhrosesau ffurfio polisïau, gosod safonau a monitro arferion a chyfarpar er budd Iechyd a Diogelwch.** | ***Archwiliadau o'r peiriannau Resuscitaire a'r cyfarpar arall yn amlwg ym mhob ardal glinigol. Gwelir o adroddiadau goruchwylio ac ymchwiliadau bod pob bydwraig yn derbyn cloriannau babanod. CEMACH yn adrodd bod Goruchwyliwr Bydwragedd wedi sicrhau bod thermomedr gan bob bydwraig gymunedol.***<br><br>***Hyfforddiant CTG a phresenoldeb a chyfraniad Goruchwylwyr Bydwragedd yn amlwg – Goruchwyliwr Bydwragedd yn mynychu pob gweithdy sgiliau ac ymarferion.***<br><br>**Tystiolaeth 2012/13**<br>Polisi geni yn y cartref ar waith gyda chyfarpar wedi'i amlygu<br>Rhestr Cyfarpar yn yr ardaloedd clinigol (Gweithdrefnau dyddiol)<br><br>Gofynnir i Fydwragedd Cymunedol mewn cyfweliadau blynyddol a yw'r cyfarpar yn gweithio'n iawn. Fel arfer gorau rhaid i bob Bydwraig Gymunedol gofnodi yn eu dyddiaduron (yn fisol) bod yr holl gyfarpar yn gweithio'n iawn. | | ***Angen sefydlu rhestr gyfeirio a chynllun clir ar gyfer monitro cyfarpar yn y gymuned.***<br><br>**2012/13 Dim camau gweithredu newydd wedi'u cynllunio** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V16 | **Canlyniad:**<br><br>**2012/13**<br>**AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gymedrol o hyd.**<br>**Mae angen datblygu pellach ar argymhellion y flwyddyn flaenorol** | **Ceir polisi eglur ar sut y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â llunio prosesau ar gyfer archwilio cyfarpar ar lefel ward ac ar gyfer bydwragedd cymunedol**<br><br>**Ceir tystiolaeth bod cyfarpar yn cael ei archwilio'n aml o flwyddyn i flwyddyn er mwyn sicrhau ei fod ar gael ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddiogel** | **Nid oes polisi eglur ar sut y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â llunio prosesau ar gyfer archwilio cyfarpar ar lefel ward neu gymunedol, ond gall Goruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio sut y mae hyn yn digwydd**<br><br>**Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn archwilio cyfarpar er mwyn sicrhau ei fod ar gael ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddiogel, ond nid yw hyn yn gyson** | **Nid oes proses wedi'i sefydlu ac nid yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn gallu disgrifio sut na pha mor aml y gwneir hyn**<br><br>**Prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn archwilio cyfarpar ar lefel ward neu gymunedol, neu nid oes unrhyw dystiolaeth ohono o gwbl** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ceir tystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â llunio a monitro hyfforddiant, sgorio ac arfer da rheolaidd o ran CTG** | **Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â monitro hyfforddiant, sgorio ac arfer da rheolaidd o ran CTG, ond nid yw hyn yn gyson** | **Prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â monitro hyfforddiant, sgorio ac arfer da rheolaidd o ran CTG, neu nid oes unrhyw dystiolaeth ohono o gwbl** |

**Sylwadau'r AGLI**

**Diweddarwyd 2012/13**
Ar hyn o bryd nid oes polisi ar sut y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud ag archwilio cyfarpar ar lefel ward neu gymuned neu sut y maent yn derbyn sicrwydd gan y rhai sydd â chyfrifoldeb am y swyddogaeth hon. Nid oedd y ffeil dystiolaeth ond yn cynnwys rhestr gyfeirio Geni yn y Cartref fel tystiolaeth ar gyfer y safon hon, a dim cofnod o archwilio neu o gadarnhau yn yr adolygiad blynyddol pa un a oedd bydwragedd cymunedol yn rhoi adroddiad yn eu dyddiadur. Gwelodd tîm adolygu'r AGLI dystiolaeth y caiff cyfarpar ei archwilio yn yr ardal glinigol. Ni welwyd y cofnodion o gynnal a chadw ac archwilio. Roedd nifer o gyfeiriadau at y ffaith bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn bresennol ac yn darparu hyfforddiant sgiliau ac ymarferion ac arfer da arall yn ymwneud â dehongli ac asesu CTG.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Dylai'r Goruchwylwyr Bydwragedd ddyfeisio cynllun gwaith i gynnwys sut y byddant yn cael sicrwydd y caiff cyfarpar bydwragedd cymunedol ei archwilio, neu drefnu i wneud hyn ar ddiwrnodau sgiliau ac ymarferion. Byddai adroddiad cyfansawdd ar gydymffurfiad yn dystiolaeth ddefnyddiol. Dylai fod rhywfaint o dystiolaeth i ategu y gwneir gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar y cyfarpar y mae angen hynny arno.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V17 | **Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn rhoi gwybod i'w cyflogwr os ydynt yn pryderu y gallai adnoddau annigonol beryglu diogelwch y cyhoedd yn y gwasanaethau mamolaeth.** | ***Tystiolaeth ar gael y rhoddir gwybod i swyddog uwch am bryderon. Cyfarfodydd tîm lle mae materion clinigol wedi cael eu codi gyda phresenoldeb Goruchwyliwr Bydwragedd. Cofnodion o gyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd lle mae pryderon wedi cael eu codi***<br><br>**Tystiolaeth 2012/13**<br>Tystiolaeth SBAR o bryderon wedi'u hamlygu gan oruchwylwyr i'r Pennaeth Bydwreigiaeth yn ystod amser o weithgaredd cynyddol | | ***Sicrhau eu bod yn amlwg i'r cyhoedd fel Goruchwylwyr, yn mynd i gyfarfodydd risg ac yn amlygu pryderon y mae angen rhoi sylw iddynt o fewn y gofrestr risg er enghraifft pryderon ynghylch cyfleusterau'r Uned Gofal Arbennig Babanod. Parhau i weithio gyda chyflogwyr i roi sylw i ffordd ymlaen. Cynnal presenoldeb a chefnogaeth i fydwragedd sydd â phryderon o ran ymarfer.***<br><br>**2012/13 Dim camau gweithredu newydd wedi'u cynllunio** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V17 | **Canlyniad:**<br><br>**2012/13**<br>**AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gymedrol i gref.**<br>**Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygu.** | **Mae cofnodion cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd yn dangos y trafodir materion staffio neu risgiau eraill i ddiogelwch cleifion**<br><br>**Ceir tystiolaeth o gynlluniau gweithredu a luniwyd gan Oruchwylwyr Bydwragedd i gynorthwyo bydwragedd i gynnal arferion gwaith diogel ac mae canlyniadau eglur yn deillio o hynny**<br><br>**Ceir tystiolaeth ysgrifenedig bod Goruchwylwyr Bydwragedd wedi codi eu pryderon gyda'r pennaeth bydwreigiaeth pan fo'u llwyth gwaith eu hunain yn peryglu eu gallu i amddiffyn y cyhoedd neu pan fo pryderon o'r fath yn ymwneud â darparu gwasanaethau, ac mae** | **Mae cofnodion cyfarfodydd yn dangos rhywfaint o drafodaeth ynglŷn â lefelau staffio diogel ac ati, ond nid yw mor eglur pa gamau a gymerwyd o ganlyniad**<br><br>**Ceir tystiolaeth o gynlluniau gweithredu ond nid yw'r rhain yn gadarn ac nid yw'r canlyniadau wedi'u diffinio'n eglur**<br><br>**Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd wedi codi pryderon gyda'r pennaeth bydwreigiaeth ac eraill, ond ni fu unrhyw gamau dilynol na newidiadau i arferion gwaith o ganlyniad i hynny** | **Nid oes tystiolaeth bod materion o'r fath yn cael eu trafod gan Oruchwylwyr Bydwragedd yn eu cyfarfodydd** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **canlyniadau eglur yn deillio o hynny** | | |

**Sylwadau'r AGLI**

**Diweddarwyd 2012/13**
Bellach ceir cyfarfodydd tîm rheolaidd lle mae'r agenda yn canolbwyntio ar swyddogaethau amddiffyn y cyhoedd a rôl y Goruchwylwyr Bydwragedd o ran herio rheolwyr i roi sylw i bryderon. Bu rhywfaint o dystiolaeth o ddigwyddiadau difrifol a'u cynlluniau gweithredu dilynol yn cael eu hadolygu mewn cyfarfodydd tîm Goruchwylwyr Bydwragedd er mwyn ceisio cryfhau'r cynlluniau gweithredu a rhoi mwy o sicrwydd bod rheolwyr yn rhoi sylw i feysydd pryder. Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI a'r Goruchwyliwr Bydwragedd cyswllt yn cwrdd â'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth Cyswllt ac yn trafod staffio a materion diogelwch eraill. Gellid mynd ag unrhyw faterion heb eu datrys at y Cyfarwyddwr Nyrsio fesul achos, drwy'r cyfarfodydd adolygu hanner blwyddyn neu yn ad hoc os yw'n ofynnol. Gwelwyd rhai enghreifftiau da o gofnodion cyfathrebu SBAR a ddatblygwyd gan Oruchwylwyr Bydwragedd mewn partneriaeth â bydwragedd i gefnogi'r broses o gynllunio gofal i fenywod sy'n gwneud dewisiadau geni llai ffafriol. Cafodd yr archwiliad bach o'r graddau y mae bydwragedd cymunedol yn cydymffurfio â gofal cynedigol NICE i fenywod risg isel ei grynhoi mewn adroddiad briffio defnyddiol. Byddai'n dda gweld pa effaith, os o gwbl, a gaiff hyn ar adnoddau staffio.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

**Diweddarwyd 2012/13**
Mae angen i'r Goruchwylwyr Bydwragedd wneud yn siwr y ceir cynrychiolaeth deg ym mhob cyfarfod Goruchwylwyr Bydwragedd a bod yr agenda wedi cael ei phennu'n briodol i sicrhau pwyslais cryf ar fonitro materion rheoli sy'n deillio o ddigwyddiadau difrifol ac ymchwiliadau goruchwylio. Mae angen i Oruchwylwyr Bydwragedd sicrhau eu bod yn fwy gweledol mewn pwyllgorau corfforaethol eraill lle mae'r cyfle ganddynt i godi pryderon ynghylch darpariaeth mamolaeth os ystyrir bod gan bryderon o'r fath oblygiadau ar gyfer diogelwch mamau neu fabanod. Mae angen i'r cynllun gweithredu yn 2013/14 gael ei lunio gyda chamau gweithredu CAMPUS i sicrhau y nodir pwy sy'n arwain, y rhoddir llinell amser ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu, ac yr hysbysir yn rheolaidd ynglŷn â'r hyn a gyflawnwyd.

## 5 Casgliad

**5.1** Roedd yr AGLI yng Nghymru yn cydnabod bod angen adolygu proses archwilio Goruchwylwyr Bydwragedd a'i symleiddio i sicrhau ei bod yn addas at ei diben, ac y byddai'n ychwanegu at y mecanweithiau sicrwydd sy'n bodoli o ran gwella diogelwch y cyhoedd. Fodd bynnag, roedd yr AGLI hefyd yn awyddus i osgoi dyblygu ymdrechion Goruchwylwyr Bydwragedd drwy lunio proses fwy di-dor i sicrhau y byddai canlyniadau ac argymhellion yn berthnasol ac yn rhoi sail i'r ffordd ymlaen mewn cyfnodau cynllunio canlynol. Mae hon yn broses ddynamig a bydd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI yn cydweithio â Goruchwylwyr Bydwragedd a Phenaethiaid Bydwreigiaeth i wneud mwy i fireinio'r archwiliad blynyddol er mwyn iddo ategu'r trefniadau llywodraethu mewnol yn ogystal â rhoi gwybodaeth i'r AGLI a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

**5.2** Dylid cymeradwyo goruchwylwyr Bwrdd Iechyd Hywel Dda am eu gwaith hyd yn hyn ac am gyfraniad unigolion a'r tîm yn ei gyfanrwydd at wella diogelwch y cyhoedd. Mae'r AGLI yn ddiolchgar i'r holl staff a gyfrannodd at yr ymweliad archwilio ac at gasglu'r dystiolaeth, ac i'r Bwrdd Iechyd am eu croeso.

**5.3** Mae'r AGLI yng Nghymru yn edrych ymlaen at gydweithio â phob Goruchwyliwr Bydwragedd i barhau i sicrhau bod y swyddogaeth oruchwylio'n fwy amlwg ar bob lefel yn y Bwrdd Iechyd. Rydym hefyd yn edrych ymlaen yn fawr at gefnogi'r gwaith o Ddiogelu Goruchwyliaeth at y Dyfodol gan ddangos i'r Bwrdd bod goruchwylio wirioneddol yn ychwanegu gwerth at wasanaethau bydwreigiaeth a bod swyddogaeth y goruchwyliwr yn y pen draw'n gwella diogelwch y cyhoedd drwy gefnogi gweithlu bydwreigiaeth diogel.

amddiffyn y cyhoedd trwy oruchwyliaeth statudol o fydwragedd

protecting the public through statutory supervision of midwives

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

**Atodiad A**

## AGLI Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Rhaglen yr Archwiliad Blynyddol o Safonau Goruchwylio Bydwragedd

**Dyddiad:** **Dydd Llun, 28 Ionawr 2013**
**Lleoliad:** **Ysbyty Cyffredinol Glangwili Caerfyrddin, Bwrdd Iechyd Hywel Dda**

| Rhif | Amser | Gweithgaredd | |
|---|---|---|---|
| **1** | **09.00** | Cyrraedd a Choffi | |
| **2** | 09.15 | Cyflwyniad gan dîm adolygu'r AGLI<br><br>Cyflwyniad gan Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI i egluro diben archwilio goruchwyliaeth, a chyfeiriad goruchwyliaeth yn y dyfodol fel y'i pennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth<br><br>I'w gwahodd – Cyfarwyddwr Nyrsio<br>Pennaeth Bydwreigiaeth<br>Cyfarwyddwr Clinigol<br>Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt<br>Goruchwylwyr Bydwragedd Lleol<br>Rheolwr Risg Corfforaethol<br>Cymorth gweinyddol i'r goruchwyliwr bydwragedd | |
| **3** | 09.30 | Cyflwyniad 20 munud gan Oruchwylwyr Bydwragedd lleol gan gynnwys;<br><br>1. Crynodeb o'r adroddiad blynyddol lleol a chynllun gweithredol 2012-2013<br>2. Enghreifftiau o Arfer Da<br>3. Enghreifftiau o broffil goruchwylio yn lleol<br>4. Gwybodaeth allweddol ar gyfer adroddiad blynyddol lleol 2012-2013<br>5. Cyfeiriad y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd lleol a chynllun gweithredol arfaethedig ar gyfer 2013-2014 | |
| **4** | 10.30 | **Coffi** | |
| **5** | 10.45 | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod â'r Rheolwr Risg Corfforaethol (Tîm 1) | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod ag arweinwyr ym maes Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd a Chadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth, ac adolygu enghreifftiau o Oruchwylwyr Bydwragedd yn ymgysylltu â defnyddwyr (Tîm 2) |
| **6** | 11.15 | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod â'r Cyfarwyddwr Clinigol (Tîm 1) | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod â myfyrwyr bydwreigiaeth, addysgwyr ymarfer, mentoriaid bydwragedd (Tîm 2) |
| **7** | 11.45 | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod â Goruchwylwyr Bydwragedd lleol i adolygu tystiolaeth o safonau archwilio V1, V3, V4, V11, V12, V13, V14, V16, a V17. | |
| **8** | 13.00 | **Cinio** | |
| **9** | 13.30 | Tîm Adolygu'r AGLI i gadarnhau tystiolaeth yn yr amgylchedd clinigol | |
| **10** | 15.00 | Tîm Adolygu'r AGLI i grynhoi eu canfyddiadau a drafftio gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad | |
| **11** | 16.00 - 16.15 | Adborth i'r Pennaeth Bydwreigiaeth ac eraill, crynodeb o'r diwrnod a'r camau nesaf | |

## Atodiad B

**Rhestr o'r rhai a gymerodd ran ym mhroses yr Archwiliad Blynyddol – BILI Hywel Dda**

**Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth Cyswllt /Goruchwyliwr Bydwragedd** – Carole Bell

| | | |
|---|---|---|
| **Bydwragedd Arweiniol Sirol/ Goruchwylwyr Bydwragedd** – | Julie Wall | Sir Benfro |
| | Julie Jenkins | Sir Gaerfyrddin |
| **Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt** – | Julie York | Sir Benfro |
| **Goruchwyliwr Bydwragedd** – | Maureen Jones | Ceredigion |
| **Goruchwyliwr Bydwragedd** – | Denise Hancock | Ceredigion |
| **Goruchwyliwr Bydwragedd** – | Sue Peterson | Ceredigion |
| **Goruchwyliwr Bydwragedd** – | Debbie James | Sir Benfro |
| **Goruchwyliwr Bydwragedd** – | Eileen Harrison | Sir Gaerfyrddin |
| **Goruchwyliwr Bydwragedd** – | Linda Leeves | Sir Gaerfyrddin |
| **Goruchwyliwr Bydwragedd** – | Adele Roberts | Sir Gaerfyrddin |

**Wedi cyfarfod â thîm yr AGLI**

**Obstetregydd Ymgynghorol** – Dr Nicola Piskorowskyj

**Cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaeth Mamolaeth** – Bridget Radford

Nid oedd dim myfyrwyr bydwragedd yng Nghaerfyrddin ar gyfer yr ymweliad archwilio

Bydwragedd o'r wardiau Cynenedigol ac Ôl-enedigol, a'r Clinig Cynenedigol

Cymorth gweinyddol – Dim ar gael

**Ymddiheuriadau:**

**Cyfarwyddwr Nyrsio** – Caroline Oakley